# Cynllun gwaith arfaethedig Ofcom 2022/23

## Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

**Ymgynghoriad:**

Dyddiad Cyhoeddi: 15 Rhagfyr 2021

Dyddiad Cau ar gyfer Derbyn Ymatebion: 9 Chwefror 2022

# Cynnwys


## Adran

1. Trosolwg 1
2. Ein nodau a blaenoriaethau ar gyfer 2022/23 6
3. Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol 30
4. Cyflwyno deilliannau da i ddefnyddwyr ar draws y DU 33

## Atodiad


A1. Yr hyn a wnawn 40
A2. Gwaith prosiect ar gyfer 2022/2023 42
A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn 53
A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom 56
A5. Taflen glawr yr ymgynghoriad 57

# 1. Trosolwg

## Gwasanaethau cyfathrebu yw'r sail i adferiad y DU

1.1 Ar draws cymdeithas, rydym yn dibynnu fwyfwy ar rwydweithiau cyfathrebu'r DU am y ffordd rydym yn byw, yn gweithio, yn siopa ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus – o alwadau fideo gydag anwyliaid i weithio o bell, mwynhau ffilmiau a rhaglenni manylder uchel iawn, neu dracio parseli sy'n cael eu danfon i'n cartrefi. Mae'r newidiadau hyn i'n bywydau wedi cael eu cyflymu gan y pandemig Covid-19. Mae'r angen am rwydweithiau band eang a symudol cyflymach a mwy dibynadwy yn bwysicach fyth, gan fod cynifer o wasanaethau'n dibynnu arnynt.

1.2 Ar yr un pryd, ar draws y DU rydym yn treulio mwy o amser ar-lein. Ar gyfartaledd, treuliodd pobl chwarter eu diwrnodau deffro yn gysylltiedig â'r rhyngrwyd yn 2020.[1] Mae sectorau fel cyllid, iechyd, addysg a logisteg hefyd yn datblygu gwasanaethau ar-lein newydd i ddiwallu anghenion pobl. Mae cwestiynau a heriau newydd ac esblygol yn dod i'r amlwg ar gyfer rheoleiddwyr a'r rhai sy'n llunio polisi wrth i gymdeithas fynd yn fwyfwy dibynnol ar y gwasanaethau ar-lein hyn – yn enwedig o ran sut i sicrhau dibynadwyedd rhwydweithiau yn y dyfodol, yn ogystal â diogelwch ac ymddiriedaeth yn y cynnwys a ddarperir ar eu traws.




1.3 Nod gwaith Ofcom yw adlewyrchu profiadau a phryderon pobl a busnesau. Eleni, y gyfradd chwyddiant yn y DU yw'r uchaf mewn deng mlynedd, ac mae pobl yn wynebu biliau a phrisiau uwch, ac ar yr un pryd mae llawer o gwmnïau yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio yn wynebu costau neu heriau cynyddol mewn cadwyni cyflenwi byd-eang. Byddwn yn cadw'r ffactorau hyn mewn cof, wrth i ni feddwl am y rhagolygon ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â'r busnesau sy'n eu darparu.

1.4 Mae ffyrdd newydd o wneud gwaith busnes sydd wedi dod i'r amlwg, megis y defnydd cynyddol o weithfannau ac offer hybrid sy'n galluogi mwy o gydweithio ar-lein, yn amlygu pwysigrwydd rhwydweithiau dibynadwy i'r economi. Mae gwasanaethau fel Zoom a Microsoft Teams bellach yn hanfodol ar gyfer busnesau a sefydliadau yn y sectorau preifat a

[1] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0014/220415/online-nation-2021-welsh-overview.pdf

chyhoeddus fel ei gilydd. Mae'r ddibyniaeth hon ar wasanaethau ategol yn ffocysu sylw yn fwy cyffredinol ar ddibynadwyedd gwasanaethau ar y rhyngrwyd, ac nid seilwaith telathrebu traddodiadol yn unig. Dangoswyd hyn ym mis Mehefin pan achosodd diffyg gyda'r darparwr seilwaith rhyngrwyd Fastly i rai o wefannau mwyaf y byd ddiflannu.

## Mae'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio, a sut mae pobl yn ymgysylltu â'u gwasanaethau, wedi'u heffeithio gan newid ehangach

1.5 Rydym hefyd yn parhau i weld cydgyfeirio rhwng darlledu, telathrebu a gwasanaethau ar-lein. Mae rhwydweithiau traddodiadol yn symud o galedwedd i wasanaethau cwmwl, a ddarperir fel arfer gan gwmnïau technoleg fel Amazon, Microsoft neu Google, ond sy'n dibynnu ar yr un rhwydweithiau a ddarperir gan fusnesau telathrebu traddodiadol. Bydd Ofcom yn parhau i ymchwilio a monitro datblygiadau yn y farchnad, ac i ddwyn syniadau ynghyd mewn cyhoeddiadau fel adroddiad Dyfodol y Rhyngrwyd[2] a gyhoeddwyd gennym ym mis Gorffennaf 2021.

1.6 Yng nghynhadledd COP26 ym mis Tachwedd, daeth arweinwyr y byd ynghyd i ymdrin â mater hollbwysig newid yn yr hinsawdd. Gall gwasanaethau cyfathrebu chwarae rôl wrth leihau allyriadau carbon wrth i ni anelu at gymdeithas fwy cynaliadwy. Gall gwasanaethau sefydlog a diwifr fod yn allweddol wrth symud i gynaladwyedd amgylcheddol – boed hynny drwy leihau teithio, cynyddu gwydnwch rhwydweithiau, neu alluogi gwasanaethau fel mesuryddion clyfar mewn cartrefi neu loerenni i fonitro newid yn yr hinsawdd. Byddwn yn parhau i weithio gyda chwmnïau yn ein sectorau i ystyried sut y gallant gyfrannu at gyrraedd targed carbon sero-net y DU.

1.7 Bu ffocws o'r newydd ar ffydd yn yr hyn y mae cynulleidfaoedd yn ei weld a'i glywed. Mae'r bygythiad o wybodaeth anghywir a chamwybodaeth ar-lein yn mynd yn groes i'r disgwyliadau o ran ansawdd a chywirdeb sydd gan gynulleidfaoedd o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSB) y DU. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus – y BBC, ITV, STV, Channel 4, S4C a Channel 5 – yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddarparu gwybodaeth ddibynadwy y gall pawb ymddiried ynddi. Pan ddechreuodd cyfnod clo'r DU ym mis Mawrth 2020, cyflawnodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu cyfran uchaf o'r gynulleidfa mewn mwy na chwe blynedd, sef tua 59%.[3]

1.8 Yn fwy cyffredinol, roedd gwerth darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a sefydliadau cyfryngau eraill a sefydlir yn y DU mor gryf ag erioed, hyd yn oed wrth i wasanaethau ffrydio fel Netflix, Amazon Prime Video a Disney+ gynnig dewis cynyddol eang i'r cyhoedd. Dywedodd dau draean o oedolion y DU sy'n gwylio gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a ffrydio drwy danysgrifiad fod y cyntaf yn well wrth "ddarparu rhaglenni sy'n adlewyrchu bywyd a gwerthoedd y DU”.[4] Mae'n parhau'n hanfodol bod pobl a chymunedau ym mhob rhan o'r DU yn cael eu cynrychioli a'u hadlewyrchu yn y cynnwys y maent yn ei wylio ar y teledu a'i glywed ar y radio.

---

[2] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0013/222205/internet-futures.pdf
[3] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0021/222915/wales-report-2021-cym.pdf
[4] https://www.smallscreenbigdebate.co.uk/__data/assets/pdf_file/0028/208765/psb-quantitative-research-findings.pdf

1.9 Wrth i Ofcom ymgymryd â dyletswyddau newydd i greu bywyd mwy diogel ar-lein, mae gwefannau ac apiau mawr yn cael eu craffu'n fwy, gan fod cwestiynau am ddiogelwch ac ymddiriedaeth yn rhan gynyddol o'r drafodaeth gyhoeddus. Mae chwech o bob deg o oedolion cysylltiedig – ac wyth o bob deg o blant hŷn – yn adrodd am gael o leiaf un profiad niweidiol ar-lein yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cred dau draean o bobl y dylid rheoleiddio'r cyfryngau cymdeithasol yn fwy.[5]

## Blaenoriaethau Ofcom ar gyfer y blynyddoedd i ddod

1.10 Rydym yn disgwyl i'r diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio brofi newidiadau arwyddocaol pellach dros y blynyddoedd nesaf. Yn wyneb y newid parhaus hwn, byddwn yn cynnal ein ffocws ar dri deilliant craidd ar gyfer defnyddwyr ar draws gwledydd y DU.

1.11 ***Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arno –*** Mae mynediad i rhyngrwyd dibynadwy a fforddiadwy bellach yn bwysig i bawb, boed gartref, yn y gwaith neu yn ein bywydau cymdeithasol. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu creu marchnadoedd cystadleuol i gefnogi buddsoddiad mewn rhwydweithiau band eang cyfradd gigabit a gwasanaethau symudol cyflym. Bydd sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu trin yn deg a bod ganddynt fynediad at opsiynau fforddiadwy yn parhau'n rhan ganolog o'n hymagwedd. Nid yw dibynadwyedd yn golygu cyflymder uchel a gwasanaeth da yn unig; mae hefyd yn golygu cydnerthedd yn erbyn ymosodiadau seiber a'r gallu i wrthsefyll bygythiadau gan bartïon drwg.

1.12 ***Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi –*** Mae sector darlledu'r DU yn gwneud cyfraniad anferth at dirwedd ddiwylliannol y genedl ac i'r economi greadigol. Mae natur gynyddol fyd-eang y sector yn darparu ystod eang o gynnwys newydd a chyffrous i wylwyr a gwrandawyr, ond mae hefyd yn fygythiad i wasanaethau'r DU sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y cyhoedd. Byddwn yn parhau i gefnogi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU, gan gynnwys newyddion a materion cyfoes cenedlaethol, rhanbarthol a lleol o ansawdd uchel, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod ar gael ac yn amlwg i'r cyhoedd ar draws y gwledydd. Ac ar adeg pan fo amrywiaeth eang o leisiau ar wahanol ochrau i lawer o ddadleuon cyhoeddus, mae ein rôl fel rheoleiddiwr annibynnol cynnwys darlledu yn bwysicach nag erioed: cynnal safonau ac ar yr un pryd cynnal rhyddid mynegiant.

1.13 ***Rydym yn byw bywyd mwy diogel ar-lein*** – Mae bod ar-lein yn dod â manteision enfawr, ond mae gan bedwar o bob pump o bobl bryderon yn ei gylch. Dros y blynyddoedd i ddod byddwn yn gyrru safonau diogelwch gwell ar draws y diwydiant, gan ddechrau gyda'r llwyfannau rhannu fideos y dechreuom eu rheoleiddio yn 2021. Ein nod yw dod â thryloywder ac atebolrwydd i wasanaethau ar-lein, gan sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau gofal newydd i'w defnyddwyr. Wrth i ni wneud hyn, byddwn yn adeiladu ar ein hanes o gynnal safonau yn y cyfryngau, gan gefnogi rhyddid mynegiant a hyrwyddo arloesedd.

---

[5] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0024/196413/concerns-and-experiences-online-harms-2020-chart-pack.pdf

1.14 Ochr yn ochr â'r tair blaenoriaeth hyn, byddwn yn parhau i gefnogi defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill ar draws yr ystod eang o sectorau rydym yn gweithio gyda nhw. Mae hyn yn cynnwys ein rôl o reoli sbectrwm y DU, sy'n ein gweld yn cefnogi defnyddwyr mor amrywiol â chynhyrchwyr theatr, y System Leoli Fyd-eang (GPS) o loerenni ar gyfer llywio, a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yn y diwydiannau morol ac awyrennol. Byddwn yn parhau i oruchwylio'r gwasanaeth post cyffredinol, ac yn cwblhau adolygiad o sut rydym yn rheoleiddio'r post.

## Byddwn yn parhau i ddatblygu sgiliau a galluoedd Ofcom wrth i'n cylch gwaith dyfu

1.15 Mae'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio yn ddeinamig ac yn arloesol. Gyda thwf ein cylch gwaith, mae angen i Ofcom dyfu ac esblygu ein sgiliau a'n galluoedd ein hunain, yn enwedig wrth i ni ymgymryd â dyletswyddau newydd ym meysydd diogelwch seiber ac ar-lein.

1.16 Mae ein cynlluniau'n rhychwantu nifer o flynyddoedd, ond rydym eisoes wedi gwneud cynnydd arwyddocaol, gan adeiladu ar arbenigedd traddodiadol Ofcom ym meysydd telathrebu, darlledu a sbectrwm. Er enghraifft, rydym wedi adeiladu timau newydd sydd ag arbenigedd mewn peirianneg a dadansoddeg data, fel y gallwn ddefnyddio deallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol i gael mewnwelediad newydd a thaclo setiau data cymhleth. Byddwn yn defnyddio'r technegau hyn yn ein gwaith presennol yn ogystal ag yn ein dyletswyddau newydd. Rydym wedi recriwtio arbenigedd newydd sylweddol mewn diogelwch seiber ac ar-lein, gan gynnwys technolegau ar-lein.

1.17 Agorodd Ofcom ei hyb technoleg newydd ym Manceinion yn hydref 2021. Bydd hyn yn gweithredu fel prif leoliad ein swyddogaethau technoleg ac ar-lein newydd, ac yn ein galluogi i ddatblygu partneriaethau'n lleol gyda'r diwydiant a phrifysgolion. Mae ein hyb ym Manceinion yn rhan o'n presenoldeb cynyddol ledled y DU sy'n cynnwys swyddfeydd yng Nghaeredin, Caerdydd a Belfast. Rydym yn anelu at adlewyrchu amrywiaeth y DU wrth i ni dyfu'r sefydliad.

1.18 Mae'r cyrhaeddiad hwn yn ein galluogi i wasanaethu'r DU cyfan a denu doniau o bob rhan ohoni. Yn ogystal â chynrychiolaeth ddaearyddol, mae ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021, yn[6] gosod targedau uchelgeisiol i wella ein cynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a menywod erbyn 2026. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn i ni wneud ein gwaith yn dda. Yn anad dim, rydym am groesawu mwy o amrywiaeth o ran meddwl a phrofiad a chreu diwylliant o gynhwysiad, ni waeth beth fo'ch cefndir.

1.19 Byddwn hefyd yn defnyddio, ac yn tyfu, ein cysylltiadau â diwydiant, y byd academaidd, elusennau ac arbenigwyr eraill, gan gydweithio'n agos â rheoleiddwyr eraill fel rhan o'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol. Byddwn yn cynyddu ein cydweithrediad â

[6] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0013/210901/diversity-and-inclusion-strategy-report-2019-20-welsh.pdf

chymheiriaid rhyngwladol i rannu gwybodaeth ac annog cysondeb o ran rheoleiddio, yn enwedig ar bynciau fel diogelwch ar-lein sy'n croesi ffiniau cenedlaethol.

1.20 Mae'r Cynllun Gwaith hwn yn adeiladu ar yr uchelgeisiau hyn ac yn nodi ein bwriadau ar gyfer 2022/23, i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bobl a busnesau ledled y DU.

1.21 Ein themâu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf:

- **Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel.** Byddwn yn cefnogi buddsoddiad parhaus mewn rhwydweithiau band eang a symudol o ansawdd uchel a dibynadwy.
- **Cael cysylltiad i bawb.** Rydym am sicrhau bod pobl a busnesau'n gallu cael mynediad at wasanaethau cyfathrebu, ac nad oes neb yn cael ei adael ar ôl wrth i wasanaethau esblygu. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- **Tegwch i gwsmeriaid.** Byddwn yn cefnogi cwsmeriaid ac yn sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg, gan barhau â'n rhaglen tegwch i gwsmeriaid a thaclo sgamiau. A ninnau wedi pennu safonau clir, byddwn yn symud ein ffocws i fonitro a deall effaith gweithredu a chyflwyno'r ymyriadau hynny.
- **Galluogi gwasanaethau diwifr yn yr economi ehangach.** Rydym yn rheoli sbectrwm y DU er budd pawb yn y DU. Ein nod yw symbylu effeithlonrwydd a chefnogi arloesedd, gan sicrhau bod yr adnodd anweledig, hanfodol a chyfyngedig hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon.
- **Cefnogi a datblygu cyfryngau'r DU.** Byddwn yn cefnogi sector cyfryngau bywiog y DU, gan gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, a'i helpu i esblygu i ddiwallu anghenion newidiol gwylwyr a gwrandawyr.
- **Gwasanaethu a diogelu cynulleidfaoedd** Byddwn yn diogelu pobl rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol ac yn dramgwyddus, ar yr un pryd â rhoi ystyriaeth lawn i ryddid mynegiant. Byddwn yn parhau i gyhoeddi, rheoli a chynnal trwyddedau ar gyfer yr holl wasanaethau teledu a radio masnachol cenedlaethol a lleol.
- **Sefydlu rheoleiddio diogelwch ar-lein.** Byddwn yn sefydlu ein gwaith o reoleiddio llwyfannau rhannu fideos a sefydlir yn y DU wrth i ni barhau i baratoi at y drefn diogelwch ar-lein ehangach. Byddwn yn dwysau ein paratoadau sefydliadol ar gyfer ein cyfrifoldebau rheoleiddio newydd wrth i'r Mesur Diogelwch Ar-lein fynd drwy Senedd y DU.

# 2. Ein nodau a'n blaenoriaethau ar gyfer 2022/23

2.1 Fel rheoleiddiwr y DU ar gyfer y sector cyfathrebu, gweledigaeth Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Mae ein dyletswyddau wedi cael eu nodi mewn nifer o ddeddfau Seneddol. Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth. Mae rhagor o wybodaeth am ein dyletswyddau statudol ar gael yn Atodiad 1.

2.2 Mae'r Llywodraeth wedi gosod ei blaenoriaethau polisi mewn perthynas â thelathrebu, rheoli sbectrwm radio a gwasanaethau post yn y Datganiad Blaenoriaethau Strategol (SSP).[7] Mae'n rhaid i Ofcom ystyried y Datganiad Blaenoriaethau Strategol wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Rydym wedi gwneud hynny wrth ddatblygu'r cynllun gwaith hwn, fel a ganlyn:

- **Seilwaith digidol o'r radd flaenaf**. O dan y thema 'Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel', rydym yn hybu cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau newydd a defnyddio sbectrwm radio er budd pobl a busnesau. Rydym yn rhannu ymrwymiad y Llywodraeth i seilwaith digidol o'r radd flaenaf ar gyfer y DU, ac mae ein gwaith yn ystyried casgliadau Adolygiad y Llywodraeth o Seilwaith Telathrebu'r Dyfodol.[8] Ar ben hynny, mae ein gwaith dan y thema 'Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach' yn dangos sut rydym yn parhau i reoli sbectrwm radio mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.
- **Hyrwyddo buddiannau defnyddwyr telathrebu.** Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddiogelu buddiannau cwsmeriaid telathrebu, gan gynnwys y rheini sy'n agored i niwed. Mae ein gwaith o dan y thema 'Tegwch i gwsmeriaid' yn cefnogi'r ymrwymiad hwn yn uniongyrchol, a byddwn yn gweithio i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu trin yn deg, yn cael eu grymuso i wneud dewisiadau sy'n iawn iddyn nhw a'u bod yn cael eu diogelu.
- **Seilwaith telathrebu diogel a chadarn.** Mae ein gwaith o dan y thema 'Buddsoddi mewn rhwydweithiau cadarn a diogel' yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddiogelwch a chadernid rhwydweithiau.
- **Gwasanaethau post.** Mae ein gwaith yn 'Cael cysylltiad i bawb', yn cynnwys adolygu a oes angen i'r modd y caiff y sector ei reoleiddio newid yng ngoleuni newidiadau yn y farchnad ac anghenion esblygol defnyddwyr.

2.3 Rydym yn nodi ein meysydd gwaith blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn isod. Mae hyn yn cynnwys manylion a cherrig milltir pwysig ein rhaglenni a'n prosiectau â blaenoriaeth. Mae Atodiad 2 yn cynnwys ein cynllun gwaith ehangach gan gynnwys y meysydd gwaith hyn a amlygir.

---

[7] https://www.gov.uk/government/publications/statement-of-strategic-priorities
[8] https://www.gov.uk/government/publications/future-telecoms-infrastructure-review

# Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel

**Byddwn yn cefnogi'r buddsoddiad a'r arloesedd parhaus mewn rhwydweithiau cyfathrebu dibynadwy o ansawdd uchel i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl a busnesau. Byddwn yn parhau â'n gwaith i roi deddfwriaeth diogelwch telathrebu ar waith i wella diogelwch a chadernid y rhwydweithiau hyn.**

2.4 Mae mwy o angen nag erioed am rwydweithiau cyflymach o ansawdd uwch. Mae buddsoddiad parhaus wedi cynyddu cyfran y cartrefi yn y DU sy'n gallu cael gafael ar wasanaethau cyfradd gigabit o 37% ym mis Ionawr 2021 i 40% ym mis Mai 2021. Ond mae mwy o waith i'w wneud i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, a band eang fforddiadwy i bobl ledled y DU.

Ym mis Mai 2021, roedd **96%** o aelwydydd y DU yn gallu cael band eang cyflym iawn.

Gall bron **40%** o gartrefi gael gwasanaethau cyfradd gigabit (i fyny o 37% yn Ionawr 2021); a gall **24%** o gartrefi'r DU gael band eang ffeibr llawn (bron 7 miliwn o gartrefi).

Mae gan **92%** o'r DU ddarpariaeth 4G da gan o leiaf un darparwr hefyd



2.5 Mae cadernid a dibynadwyedd rhwydweithiau yn hanfodol bellach. Rydym yn dibynnu ar ein cysylltiadau yn y gwaith, gartref ac wrth symud. Mae rhwydweithiau cryf a diogel sy'n gadarn wrth warchod rhag cyfnodau segur ac ymosodiadau seiber yn hanfodol ar gyfer hyn. Mae cysylltiadau dibynadwy â'r rhwydwaith hefyd yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaeth o'r safon rydym yn ei ddisgwyl gan wasanaethau cyfathrebu.

2.6 Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd ein blaenoriaethau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- **Strategaeth symudol.** Mae'r marchnadoedd sy'n darparu gwasanaethau symudol yn esblygu'n gyflym. Mewn ymateb, rydym yn datblygu ein strategaeth ar gyfer y sector symudol, gan gysoni'r drefn reoleiddio i gefnogi'r gwaith o ddarparu cysylltiadau symudol o ansawdd uchel a chefnogi arloesedd. Byddwn yn cyhoeddi dogfen drafod ddechrau 2022 ac yna'n adeiladu ar ymatebion rhanddeiliaid i nodi ein casgliadau cychwynnol ac unrhyw gamau i'w cymryd nesaf.
- **Gofynion y sbectrwm ar gyfer gwasanaethau symudol.** Gyda mwy'n dibynnu ar gysylltedd symudol, byddwn yn asesu'r galw am sbectrwm symudol ar gyfer y cyfnod hyd 2035 ac yn ymgynghori ar ein dull o ganiatáu defnyddio bandiau sbectrwm tonnau milimedr ar gyfer gwasanaethau newydd, gan gynnwys gwasanaethau symudol 5G.
- **Cefnogi buddsoddiad mewn rhwydweithiau gigabit.** Byddwn yn parhau i weithredu'r rheoliadau a nodir yn ein Hadolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Cyfanwerthol[9] i hyrwyddo'r broses o gyflwyno band eang gigabit, a byddwn yn parhau i annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau cyflymder uwch.
- **Gweithredu fframwaith diogelwch telathrebu.** Rydym yn paratoi ar gyfer ein pwerau ehangach o dan ddeddfwriaeth diogelwch telathrebu newydd Llywodraeth y DU i fonitro ac asesu diogelwch rhwydweithiau a gwasanaethau gweithredwyr, gan orfodi cydymffurfiaeth ar yr un pryd.
- **Niwtraliaeth y rhyngrwyd.** Mae Ofcom yn gyfrifol am fonitro a sicrhau cydymffurfiad â rheolau niwtraliaeth y rhyngrwyd a gallwn gyhoeddi canllawiau ar gydymffurfio â'r rhain. O ystyried y defnydd cynyddol ac esblygol o wasanaethau ar-lein, rydym wedi dechrau adolygu sut mae fframwaith niwtraliaeth y rhyngrwyd y DU yn gweithio, a bydd hyn yn sail i'n gwaith yn y maes hwn. Byddwn yn ystyried sut gall fframwaith niwtraliaeth y rhyngrwyd wasanaethu buddiannau defnyddwyr yn y ffordd orau a hyrwyddo mynediad a dewis, gan ganiatáu i fusnesau arloesi a buddsoddi.


2.7 Ochr yn ochr â'r blaenoriaethau a amlinellir uchod, bydd ein rhaglen waith barhaus yn cynnwys ehangu ein gwaith ar ansawdd gwasanaeth i ystyried y set ehangach o ffactorau sy'n pennu ansawdd profiad pobl. Byddwn hefyd yn edrych sut y gellir defnyddio gwybodaeth am berfformiad rhwydweithiau i wella ansawdd, cefnogi dewis cwsmeriaid a hyrwyddo buddsoddiad mewn rhwydweithiau.

[9] https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/2021-26-wholesale-fixed-telecoms-market-review

# Cael cysylltiad i bawb

**Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu elwa o botensial technolegau digidol drwy wella mynediad at gyfathrebiadau dibynadwy ledled y wlad.**

2.8 Wrth i wasanaethau a thechnolegau hŷn barhau i gael eu disodli gan wasanaethau sy’n cysylltu â’r rhyngrwyd, mae angen i ni sicrhau bod pawb yn y DU yn gallu cysylltu’n ddibynadwy â’r rhyngrwyd. Heddiw, mae pethau mor gyffredin â gwneud galwadau ffôn, anfon negeseuon at ffrindiau a theulu, gwylio’r teledu neu wrando ar y radio, pob un ohonynt yn cael eu gwneud dros amrywiaeth o rwydweithiau, yn cael eu gwneud fwyfwy dros y rhyngrwyd. Wrth edrych i’r dyfodol, mae potensial technolegau mwy newydd – fel cartrefi clyfar neu ddinasoedd clyfar – yn cynnig hyd yn oed mwy o bosibiliadau i gyfoethogi profiadau unigolion a chymunedau. Rydym yn cydnabod ein rôl o ran sicrhau ein bod yn ymestyn y rhwydweithiau sy’n galluogi’r gwasanaethau a’r technolegau hyn ledled y DU.




2.9 Drwy’r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) band eang, sy’n rhoi’r hawl gyfreithiol i ofyn am gysylltiad teilwng, byddwn yn helpu rhai o’r 134,000 o gartrefi sydd heb fynediad at fand eang teilwng ar hyn o bryd.[10] Yn y cyfamser, mae’r Rhwydwaith Gwledig a Rennir sy’n cael ei adeiladu gan y pedwar gweithredwr rhwydwaith symudol (EE, O2, Three a Vodafone), yn helpu i gynnig darpariaeth symudol i’r rhannau mwyaf anghysbell o’r wlad. Byddwn yn parhau i adolygu cynnydd y cynlluniau hyn ac yn cefnogi’r diwydiant i gyflwyno’r seilwaith angenrheidiol ledled y DU.

2.10 Mae’r pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y sector post wrth ddarparu gwasanaethau allweddol i bobl. Roedd hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau cyfathrebu pwysig ar ran y llywodraeth, y GIG, gwasanaethau gweinyddol a’r banciau i gartrefi yn ystod yr argyfwng. Mae’r pandemig wedi arwain at dwf sylweddol mewn gwerthiant ar-lein ac, yn ei dro, at gynnydd yn nifer y parseli, ac mae nifer y llythyrau wedi gostwng yn

[10] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0014/224213/connected-nations-summer-2021-welsh.pdf
Ar yr amod bod cost cysylltiad yn llai na £3,400, caiff ei ddarparu heb gyfraniadau ychwanegol gan y cwsmer.

sylweddol ar yr un pryd. Yn ogystal â'n hadolygiad o reoleiddio gwasanaethau post, byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y Post Brenhinol o ran ansawdd gwasanaeth, effeithlonrwydd, a pherfformiad ariannol y rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol. Byddwn hefyd yn monitro cystadleuaeth, datblygiadau yn y farchnad parseli ehangach, a phrofiadau defnyddwyr a busnesau yn y sector gwasanaethau post.

2.11 Yn 2022/23, er mwyn cyflawni ein hamcanion, byddwn yn gweithio ar draws nifer o feysydd:

- **Mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngrwyd.** Yn draddodiadol, mae galwadau ffôn llinell dir wedi cael eu darparu dros y rhwydwaith ffôn sefydlog traddodiadol, sy'n dod i ddiwedd ei oes. Yn y dyfodol, bydd galwadau llinell dir yn cael eu darparu dros dechnoleg Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP), sydd angen cysylltiad band eang. Er y bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn gallu parhau i ddefnyddio gwasanaethau llinell dir, a dylai fod yn syml i'r rhan fwyaf o bobl, bydd angen cymorth ychwanegol ar rai pobl yn ystod y cyfnod mudo hwn. Mae gennym raglen waith barhaus i fonitro cynnydd y diwydiant o ran symud cwsmeriaid o'r dechnoleg bresennol i'r dechnoleg newydd ac i helpu i sicrhau bod pobl yn gallu elwa o hyn yn gyflym, a'u bod yn cael eu diogelu rhag niwed neu darfu gormodol.
- **Symud ymlaen â'n hadolygiad o ddyfodol rheoleiddio post.** Ym mis Rhagfyr 2021, yn dilyn cais am fewnbwn a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2021, cyhoeddom ymgynghoriad ar ein hadolygiad o'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer post. Pwrpas yr adolygiad hwn yw sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio'n dal yn berthnasol ac yn effeithiol dros y pum mlynedd nesaf, yn enwedig yn sgil newidiadau i'r farchnad fel dibyniaeth gynyddol defnyddwyr ar anfon parseli a'r gostyngiad parhaus yn nifer y llythyrau a anfonir. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys adolygiad o reoleiddio gwasanaethau USO, y farchnad post swmp, effeithlonrwydd a chynaladwyedd ariannol yr USO, a'r farchnad barseli ehangach. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein datganiad yn ystod Haf 2022.
- **Strategaeth y gofod.** Fel rhan o raglen waith ehangach a nodir yn *Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach*, byddwn yn parhau i adolygu sut y gellir defnyddio cylchdroeon lloeren i wella cyrhaeddiad a dibynadwyedd amrywiaeth o rwydweithiau ac yn ystyried sut orau i ddefnyddio rheoleiddio i gefnogi'r dechnoleg hon.

2.12 Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith ar wasanaethau sy'n bwysig o hyd i lawer o ddefnyddwyr.

- **Dyfodol rhwydweithiau 2G/3G.** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant a Llywodraeth y DU i sicrhau cydgysylltu priodol i ddiogelu defnyddwyr a lleihau unrhyw darfu yn ystod y broses o ddiffodd 2G/3G.
- **Dyrannu a rheoli rhifau ffôn.** Byddwn yn parhau i sicrhau bod rhifau ffôn rydym yn eu dyrannu i ddarparwyr teleffoni yn cael eu defnyddio'n effeithlon.
- **Gwasanaethau cyffredinol blaenorol.** Byddwn yn parhau â'n hadolygiad o rwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol blaenorol, gan gynnwys blychau ffôn cyhoeddus,

biliau manwl a llyfrau ffôn wedi’u hargraffu, gyda’r bwriad o gyhoeddi datganiad yn y gwanwyn.


- **Monitro gwasanaethau post.** Byddwn yn parhau i fonitro'r sector post fel rhan o’n dyletswydd statudol i sicrhau gwasanaeth post cyffredinol, gan ystyried effeithlonrwydd a chynaladwyedd ariannol. Byddwn yn cyhoeddi diweddariad ddiwedd 2022. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i effeithiau’r pandemig leihau ac wrth i ansawdd lefelau gwasanaeth wella.

2.13 Byddwn yn parhau i weithio â llywodraethau a chyrff eraill ledled y DU ac yn rhyngwladol, gan roi cyngor ar faterion technegol sy’n ymwneud â rhwydweithiau sefydlog a symudol.

# Tegwch i Gwsmeriaid

**Rydym am wneud yn siŵr bod holl gwsmeriaid cyfathrebiadau'r DU yn cael eu diogelu rhag niwed, eu trin yn deg a'u bod yn gallu cael y fargen orau ar gyfer eu hanghenion.**

2.14 Mae grymuso ac amddiffyn cwsmeriaid a sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg yn flaenoriaeth bwysig i ni. Byddwn yn gwneud hyn drwy barhau â'n rhaglen Tegwch i gwsmeriaid a'n gwaith i helpu i fynd i'r afael â sgamiau sy'n defnyddio gwasanaethau telathrebu i dargedu pobl. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi rhoi ymyriadau sylweddol ar waith i rymuso a diogelu cwsmeriaid, a sicrhau bod cwmnïau'n eu trin yn deg. Ar ôl gosod safonau clir, byddwn yn canolbwyntio ar fonitro a deall effaith yr ymyriadau hyn wrth iddynt gael eu rhoi ar waith a'u darparu.




2.15 Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu diogelu wrth i'r sector cyfathrebu esblygu, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiogelu'r rheini sy'n dibynnu ar wasanaethau mwy traddodiadol. O ystyried y ddibyniaeth gynyddol ar wasanaethau cyfathrebu ar gyfer sawl agwedd ar ein bywydau bob dydd, byddwn hefyd yn parhau i fonitro fforddiadwyedd mynediad i'r rhyngrwyd i aelwydydd incwm isel a thrin cwsmeriaid a allai fod yn agored i niwed yn deg.

2.16 Byddwn hefyd yn ystyried sut gall gwasanaethau ar-lein effeithio ar gwsmeriaid gwasanaethau cyfathrebu, a beth mae hynny'n ei olygu o ran diogelu pobl.

2.17 Dros y flwyddyn nesaf, bydd ein blaenoriaethau yn y maes hwn yn cynnwys:

- **Diwygio'r broses newid darparwr.** Ym mis Medi 2021, fe wnaethom gyhoeddi ein bod yn mynnu bod y diwydiant yn datblygu ac yn gweithredu proses 'Newid Un Cam' newydd ar gyfer pob newid darparwr llinell dir a band eang preswyl o fis Ebrill 2023 ymlaen. Gyda Newid Un Cam, bydd pob cwsmer yn gallu defnyddio un broses i newid darparwr, ni waeth pwy yw ei ddarparwr neu ba dechnoleg neu rwydwaith y mae ei ddarparwr yn ei ddefnyddio. Ar ôl cyhoeddi datganiad ddechrau 2022 a fydd yn cadarnhau newidiadau i'r Amodau Cyffredinol sy'n rhoi'r gofynion newydd hyn ar waith, byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant wrth iddo roi'r newidiadau hyn ar waith.
- **Mynd i'r afael â galwadau niwsans a sgamiau.** Mae gennym raglen waith hirsefydlog ar fynd i'r afael â galwadau niwsans, ond mae pryder cynyddol wedi bod ynghylch sgamiau a'u heffaith ar bobl. Rydym yn cynyddu ein gwaith gyda'r diwydiant ar fesurau technegol i darfu ar alwadau a negeseuon testun sgam, ochr yn ochr â chydlynu â rheoleiddwyr eraill, Llywodraeth y DU ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Rydyn ni'n gwybod na fydd hi'n bosibl atal pob sgam rhag cyrraedd defnyddwyr. Felly, byddwn yn codi ymwybyddiaeth ac yn gwella gwybodaeth er mwyn helpu pobl i sylwi'n haws ar negeseuon testun a galwadau sgam, a delio â nhw.
- **Monitro canlyniadau a hyrwyddo cydymffurfio effeithiol.** Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr wrth iddynt roi mesurau diogelu newydd ar waith ar gyfer defnyddwyr a fydd yn dod i rym o fis Mehefin 2022 ymlaen, gan gynnwys gwybodaeth am gontractau a chrynodebau, newidiadau i gontractau a hawliau i adael, a chyfnewid fideo mewn argyfwng. Byddwn yn datblygu ein ffocws ar fonitro a deall effaith y mesurau hyn a mesurau eraill i ddiogelu defnyddwyr a hyrwyddo cydymffurfio effeithiol. Fel rhan o hynny, byddwn yn defnyddio ein gwybodaeth a'n data defnyddwyr yn well, gan gynnwys ymchwil a gwybodaeth gan ein tîm cyswllt defnyddwyr yn ogystal ag amrywiaeth eang o sefydliadau fel y cyrff sydd â dulliau amgen o ddatrys anghydfod a grwpiau defnyddwyr.

2.18 Mae gennym hefyd raglenni parhaus sy'n cefnogi ein gwaith yn y maes hwn:

- **Ymrwymiadau tegwch i gwsmeriaid.** Byddwn yn parhau i roi pwysau ar ddarparwyr i sicrhau eu bod yn trin eu cwsmeriaid yn deg ac yn darparu gwasanaethau a chynnyrch sy'n cyd-fynd â'r ymrwymiadau tegwch.[11]
- **Monitro ymgysylltu â chwsmeriaid ac effaith hysbysiadau diwedd contract a hysbysiadau blynyddol am y tariffau gorau.** Byddwn yn parhau i fonitro dangosyddion ymgysylltu â chwsmeriaid. Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad pellach o effaith hysbysiadau blynyddol am y tariffau gorau a hysbysiadau diwedd contract yn y dyfodol er mwyn deall pa mor effeithiol yw'r mesurau hyn o ran cyflawni ein hamcanion.
- **Fforddadwyedd gwasanaethau band eang.** Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar faterion fforddadwyedd ac argaeledd, trefniadau hyrwyddo a'r defnydd o dariffau wedi'u targedu sydd wedi'u cynllunio ar gyfer cwsmeriaid ar incwm isel.

[11] https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/latest/media/media-releases/2019/broadband-and-phone-firms-put-fairness-first

- **Cefnogi cwsmeriaid agored i niwed.** Byddwn yn monitro a yw darparwyr yn trin cwsmeriaid mewn amgylchiadau agored i niwed yn deg ac yn rhoi’r cymorth a’r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.
- **Cymharu ansawdd gwasanaeth.** Byddwn yn adrodd ar lefel gymharol y gwasanaeth i gwsmeriaid ar gyfer darparwyr yn y sector telathrebu a hefyd yn adrodd yn chwarterol ar y cwynion a fydd yn dod i law am wahanol ddarparwyr.
- **Adroddiad prisio.** Byddwn yn adrodd ar batrymau prisio mewn gwasanaethau sefydlog, symudol a theledu drwy dalu, gan gynnwys adolygu’r prisiau sydd ar gael i ddefnyddwyr sy’n prynu gwahanol fathau o wasanaethau yn ogystal â’r gwahaniaeth rhwng prisiau mewn contract a phrisiau y tu allan i gontract.


# Galluogi gwasanaethau diwifr yn yr economi ehangach

**Rydym yn rheoli sbectrwm y DU er budd pawb yn y DU. Ein nod yw hybu effeithlonrwydd a chefnogi arloesedd, gan sicrhau bod yr adnoddau anweledig, hanfodol a chyfyngedig hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol.**

2.19 Mae gan y sbectrwm ran ddyddiol ym mhob un o'n bywydau ac mae'n elfen hanfodol i'n cadw ni i gyd mewn cysylltiad ac yn ddiogel. Mae'n galluogi ystod eang o wasanaethau gan gynnwys cyfathrebu symudol a band eang di-wifr, meicroffonau a chamerâu di-wifr sy'n cefnogi digwyddiadau adloniant ac adroddiadau newyddion, yn ogystal â systemau fel radar a ddefnyddir i reoli traffig awyr. Defnyddir sbectrwm ar gyfer systemau sy'n monitro ac yn rheoli traffig ffyrdd a'r cyfleustodau rydym yn eu defnyddio bob dydd. Mae'n galluogi gwasanaethau lloeren sy'n darparu systemau teledu a llywio a hefyd yn monitro'r ddaear a'r gofod i ddarparu rhagolygon tywydd cywir a darparu data ar newid yn yr hinsawdd. Mae'r sbectrwm hefyd yn hanfodol i gefnogi'r gwasanaethau brys a'n lluoedd arfog.

2.20 Mae graddfa ac amrywiaeth defnyddwyr atebion di-wifr yn tyfu wrth i dechnoleg esblygu, gyda galw cynyddol am sbectrwm gan ddefnyddwyr presennol a newydd. Yng ngoleuni hyn, mae ein gweledigaeth rheoli sbectrwm, a nodir yn ein strategaeth rheoli sbectrwm ar gyfer y degawd nesaf[12], yn amlinellu sut y byddwn yn galluogi rhagor o arloesi drwy hyrwyddo defnydd mwy hyblyg ac effeithlon ar y sbectrwm, a rhannu mwy arno, a bodloni gofynion gwasanaethau lleol a chenedlaethol ar yr un pryd.

Erbyn diwedd Mawrth 2021, roedd **380,000** o drwyddedau byw ar draws y DU, a thua **2000** o achosion a gofnodwyd o ymyriant niweidiol â sbectrwm.



2.21 Dros y flwyddyn nesaf bydd ein blaenoriaethau'n seiliedig ar y meysydd ffocws hyn. Bydd y gwaith yma'n cynnwys:

[12] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0015/222171/spectrum-strategy-statement-welsh.pdf

- **Galluogi arloesi di-wifr.** Mae llawer o ddiwydiannau a lleoliadau diwydiannol, gan gynnwys porthladdoedd, ffatrïoedd ac amaethyddiaeth, yn digideiddio eu prosesau a'u systemau – gan ddefnyddio technoleg ddi-wifr yn aml i wneud hyn. Byddwn yn cefnogi'r trawsnewid hwn drwy sicrhau mynediad at sbectrwm, a byddwn yn parhau i ymgysylltu â phartïon perthnasol i lywio ein polisïau ar y ffordd orau o ddarparu sbectrwm. Bydd hyn, ochr yn ochr â'r gwaith i alluogi twf ar gyfer defnyddwyr sbectrwm presennol, yn sail i'n map sbectrwm o flaenoriaethau tymor byr a gweithgareddau tymor hwy. Bydd y map, y byddwn yn ymgynghori arno ac yn ei gyhoeddi'r flwyddyn nesaf, hefyd yn ystyried y rôl y bydd technoleg newydd yn ei chwarae o ran sicrhau bod y sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon.
- **Adolygu sut rydym yn rheoli sbectrwm ar amleddau uchel iawn.** Mae datblygiadau technolegol yn creu cyfleoedd i ddefnyddio sbectrwm ar amleddau uwch na'r rhai a ddefnyddir yn gyffredinol heddiw. Mae'r ceisiadau posibl yn cynnwys sgrinio iechyd fel canfod canser y croen, sicrhau ansawdd nad yw'n ymwthiol yn y diwydiannau fferyllol a gweithgynhyrchu, systemau diogelwch a chysylltiadau data cyflym. Byddwn yn adeiladu ar y fframwaith hyblyg rydym eisoes wedi'i ddatblygu i sicrhau bod defnyddwyr presennol yn gallu tyfu a chaniatáu i ddefnyddwyr newydd ddod i'r amlwg heb rwystro rhagor o arloesi.
- **Galluogi'r sector gofod i dyfu.** Mae'r sector gofod yn wynebu newid sylweddol wrth i nifer cynyddol o loerennau nad ydynt yn ddaearsefydlog gael eu lansio i gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu a thechnolegau newydd. Rydym yn cynnal adolygiad strategol i sicrhau ein bod yn gallu cydbwyso anghenion yr holl ddefnyddwyr sbectrwm gofod ochr yn ochr â'r rheolau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n galluogi ei ddefnyddio.
- **Ymateb i newidiadau yn y galw am sbectrwm yn y sector cyfleustodau.** Rydym yn asesu goblygiadau'r newidiadau mewn cyfathrebiadau sydd eu hangen i gefnogi cynlluniau'r sectorau cyfleustodau (trydan, nwy a dŵr) yn y dyfodol. Mae angen i'r cynlluniau hyn gyflawni amcanion polisi amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd Llywodraeth y DU.
- Gwella ein dealltwriaeth o ddefnyddio sbectrwm. Byddwn yn dadansoddi'r defnydd o sbectrwm drwy ddadansoddiad technegol manwl a mesuriadau a monitro yn y byd go iawn, fel profion gyrru i wirio darpariaeth gwasanaethau symudol. Mae deall sut mae tonnau radio'n ymddwyn (propagation) yn hanfodol i'n gwaith, byddwn felly'n cynnal ymchwil ac yn gwella ein modelau i adlewyrchu newidiadau yn yr hinsawdd (ar y ddaear ac yn y gofod) ac effeithiau deunyddiau sy'n cael eu defnyddio mewn adeiladau, cerbydau ac ar wahanol fathau o dir.

2.22 Ategir y gwaith hwn gan ein rhaglen waith barhaus bwysig i alluogi'r defnydd gorau posibl o sbectrwm ledled y DU, sy'n cynnwys:

- Rheoli ac esblygu'n effeithlon sut y caiff sbectrwm ei awdurdodi a sut mae gwahanol drwyddedeion yn cael mynediad iddo a'i ddefnyddio, gan gynnwys darparu mwy o'r gwasanaethau hyn ar-lein. Ar hyn o bryd, rydym yn rheoli tua 380,000 o drwyddedau byw,

gan brosesu tua 57,000 o drwyddedau newydd neu amrywiadau i drwyddedau bob blwyddyn ac rydym yn ymgysylltu â thrwyddedeion i gefnogi eu gofynion sy'n esblygu.


- Cynllunio'r defnydd o sbectrwm i alluogi gwasanaethau i rannu'r un sbectrwm yn effeithiol mewn gwahanol rannau o'r DU, fel darlledu teledu a radio daearol, a chreu rhaglenni a digwyddiadau arbennig. Byddwn yn cynllunio ac yn trwyddedu dwy rownd o radio DAB ar raddfa fach er mwyn galluogi tua 50 o orsafoedd radio newydd.
- Diogelu defnyddwyr sbectrwm drwy fonitro i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n hamodau a chynnal gweithgareddau gwyliadwriaeth ar y farchnad i gyfyngu ar argaeledd offer nad yw'n cydymffurfio. Mae'r ddau yn helpu i liniaru ymyriant niweidiol.
- Darparu cyngor a chymorth i ddefnyddwyr sbectrwm sy'n cwyno am ymyriant niweidiol er mwyn gallu datrys materion a godir yn gyflym, lle bo hynny'n bosibl, a gall hyn gynnwys camau gorfodi.
- Fel rhan o'n gwaith i gefnogi digwyddiadau cyhoeddus mawr yn y DU, byddwn yn cefnogi Gemau'r Gymanwlad 2022 yn Birmingham, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, y pwyllgor trefnu a defnyddwyr sbectrwm i helpu i gynnal digwyddiad llwyddiannus.
- Ymgysylltu'n rhyngwladol â diwydiannau a gweinyddwyr cenedlaethol eraill i sicrhau bod buddiannau'r DU yn cael eu hadlewyrchu a'u diogelu'n briodol mewn trafodaethau a phenderfyniadau rhyngwladol ynghylch sbectrwm.

# Cefnogi a datblygu cyfryngau'r DU

**Byddwn yn gweithio i sicrhau bod sector cyfryngau'r DU yn parhau i ffynnu. Byddwn yn cefnogi'r sector i ddarparu cynnwys o ansawdd uchel i holl gynulleidfaoedd y DU.**

2.23 Heddiw, mae cynulleidfaoedd y DU yn elwa o'r gallu i ddefnyddio lefel ddigymar o ddewis yn y gwasanaethau teledu, sain ac ar-lein. Mae miliynau'n mwynhau'r amrywiaeth eang o raglenni o safon sy'n cael eu darparu ar draws gwasanaethau cyhoeddus, masnachol a ffrydio. Mae rhaglenni'n cynnwys bwletinau newyddion dibynadwy sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr, dramâu o'r radd flaenaf a rhaglenni dogfen sy'n rhoi agoriad llygad, i gyd yn cael eu cynhyrchu gan sector sy'n rhan bwysig o economi greadigol ffyniannus y DU.

Yn ôl Traciwr Technoleg Ofcom 2021, defnyddiodd **74%** o gartrefi gwasanaeth Fideo ar-alw Darlledwr (BVoD), fel BBC iPlayer neu All 4, a dywedodd **75%** o aelwydydd yn yr arolwg iddynt ddefnyddio gwasanaeth Fideo ar-alw drwy Danysgrifiad (SVoD).




O gymharu, dywedodd **42%** o aelwydydd y DU iddynt ddefnyddio teledu traddodiadol, a **47%** iddynt ddefnyddio gwasanaeth teledu-drwy-dalu.

2.24 Fodd bynnag, mae disgwyliadau cynulleidfaoedd yn dal i newid. Mae pobl o bob oed ledled y DU yn gwylio ac yn gwrando ar fwy o gynnwys ar-lein, boed hynny drwy deledu clyfar neu seinydd clyfar, fel Alexa. Mae gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifiad, fel Netflix neu Disney+, bellach yn cael eu defnyddio yn y rhan fwyaf o gartrefi yn y DU. Ac mae'r gystadleuaeth am sylw gan y gwasanaethau hyn yn parhau i esblygu. Mae bron pob defnyddiwr rhyngrwyd yn defnyddio gwasanaeth fel YouTube, Facebook a TikTok mewn unrhyw fis penodol. Mae dau draean o bobl, gan gynnwys dros 90% o oedolion ifanc, wedi chwarae gemau ar-lein yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn erbyn y dirwedd newidiol hon, mae angen i'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i gynulleidfaoedd yn y DU, gan gynnwys darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fel y BBC ac ITV, addasu. Drwy ein gwaith, byddwn yn cefnogi'r sector wrth iddo symud fwyfwy ar-lein, gan sicrhau ar yr un pryd bod buddiannau pob cynulleidfa yn cael eu gwasanaethu. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant a Llywodraeth y DU i sicrhau bod yna fframwaith rheoleiddio wedi'i foderneiddio sy'n addas ar gyfer y degawd nesaf.

2.25 Mae'r economi greadigol yn un o lwyddiannau mawr y DU, gan ddarparu cynnwys gwych gartref, cynhyrchu refeniw sylweddol dramor ac arddangos ein gwlad i'r byd. Mae economi greadigol fywiog yn seiliedig ar ei hamrywiaeth; cymysgedd o gwmnïau mawr a bach, wedi'u lleoli ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU, sy'n cyflogi amrywiaeth eang o dalent ac sy'n gallu cyrraedd cynulleidfaoedd ledled y wlad a thu hwnt. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella amrywiaeth y sector creadigol.

2.26 Dros y flwyddyn nesaf, er mwyn sicrhau bod pawb yn y DU yn elwa o gryfder ein sector darlledu, bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar faterion gan gynnwys:

- **Cefnogi esblygiad y fframwaith rheoleiddio.** Mae system gref o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau darlledu ac ar-lein, yn hanfodol i gynulleidfaoedd ac i economi greadigol y DU yn ehangach. Yn ein dogfen hadroddiad 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr' a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021,[13] byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r diwydiant i sicrhau bod rheoleiddio'n cyd-fynd â newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd a marchnad ddeinamig iawn.
- **Amrywiaeth mewn darlledu.** Mae amrywiaeth mewn teledu a radio yn flaenoriaeth bwysig i Ofcom. Ym mis Medi 2021, cyhoeddom ein hadolygiad pum mlynedd ar amrywiaeth ym maes darlledu yn y DU,[14] gan dynnu sylw at yr hyn rydym wedi'i ddysgu dros y cyfnod hwnnw a nodi ein gweledigaeth a'n hargymhellion ar gyfer y pum mlynedd nesaf – gan gynnwys rôl Ofcom. Rydym am sicrhau bod gennym y darlun cliriaf posibl o'r dirwedd yn y sector, felly byddwn yn ystyried y data rydym yn ei gasglu a sut mae'n cael ei gasglu'r flwyddyn nesaf.
- **Asesu rôl darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu hariannu'n fasnachol.** Darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu hariannu'n fasnachol yw rhai o'r buddsoddwyr mwyaf mewn cynnwys yn y DU. Rhai o ddyletswyddau Ofcom yw asesu eu cyfraniad at nodau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus heddiw ac yn y dyfodol. Yn ogystal â'n hadolygiad blynyddol o gynlluniau Channel 4 ac i ba raddau mae'n cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynnwys cyfryngau, byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith o aildrwyddedu gwasanaethau Sianel 3 a Sianel 5, gan gynnwys adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn mis Mehefin 2022 ar gynaladwyedd y rhwymedigaethau presennol.

2.27 Y BBC yw darparwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mwyaf y DU, gyda chenhadaeth a phwrpas cyhoeddus eang i wasanaethu pob cynulleidfa. Yn ein rôl o reoleiddio'r BBC, byddwn yn parhau i fonitro a yw'n cyflawni ei ddyletswyddau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ei fod yn cyflawni gofynion ei drwydded weithredu a'i fframwaith gweithredu. Yn ogystal, byddwn yn cynnal asesiadau cystadleuaeth, yn ôl yr angen, ar y cynlluniau mae'r BBC yn eu cyflwyno sy'n cynnig newid sylweddol i'w wasanaethau. Mae prosiectau penodol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

[13] https://www.smallscreenbigdebate.co.uk/__data/assets/pdf_file/0022/221953/datganiad-dyfodol-darlledu-gwasanaeth-cyhoeddus.pdf
[14] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0031/225994/dib-five-years-2021-welsh.pdf

- **Parhau â'n hadolygiad cyfnodol o'r BBC, cyn adolygiad canol tymor y Llywodraeth o Siarter y BBC.** Mae'n ofynnol i ni gynnal o leiaf ddau adolygiad cyfnodol yn ystod cyfnod y siarter, ac mae'n rhaid cyhoeddi'r cyntaf mewn da bryd i lywio adolygiad canol tymor Llywodraeth y DU. Rhaid i ni asesu i ba raddau y mae'r BBC yn cyflawni ei genhadaeth ac yn hyrwyddo pob un o'i ddibenion cyhoeddus. Byddwn yn nodi themâu a materion ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn y dyfodol a byddwn yn pwyso a mesur yr heriau strategol yn y dyfodol. Byddwn yn cyflwyno ein hadroddiad yng ngwanwyn 2022.
- **Ystyried sut dylai trwydded weithredu'r BBC esblygu i adlewyrchu disgwyliadau ac arferion cynulleidfaoedd sy'n newid mewn byd digidol.** Mae trwydded weithredu gyfredol y BBC yn cynnwys amrywiaeth o ofynion ar draws ei wasanaethau cyhoeddus, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â gwasanaethau llinol, darlledu fel BBC One neu Radio 1. Wrth i gynulleidfaoedd wylio a gwrando fwyfwy ar gynnwys ar-lein, drwy BBC iPlayer neu wasanaethau ffrydio eraill, byddwn yn ystyried sut dylai'r drwydded weithredu esblygu i adlewyrchu hyn.

# Gwasanaethu a diogelu cynulleidfaoedd

**Byddwn yn parhau i ddiogelu cynulleidfaoedd drwy orfodi safonau o ran cynnwys, yn ogystal â sicrhau eu bod yn gallu elwa o amrywiaeth eang o wasanaethau teledu a radio masnachol drwy ein gwaith trwyddedu.**

2.28 Rydym i gyd yn dibynnu ar wasanaethau teledu a radio masnachol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn y byd, i ddysgu mwy ac i fwynhau. Dyna pam fod rôl Ofcom o ran diogelu cynulleidfaoedd y gwasanaethau hyn yn hollbwysig. Gwyddom o'n hymchwil fod disgwyliadau cynulleidfaoedd yn uchel o ran y cynnwys maen nhw'n ei weld neu'n ei glywed ar deledu, radio a gwasanaethau ar-alw. Mae ein dyletswyddau o ran safonau cynnwys yn cynnwys nifer o feysydd gan gynnwys: diogelu pobl ifanc o dan 18 oed; diogelu cynulleidfaoedd rhag deunydd niweidiol a sarhaus; didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy; a thriniaeth annheg a tharfu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad. Yn bwysig, rydym yn defnyddio'r safonau hynny mewn ffordd sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu cynulleidfaoedd a rhyddid mynegiant cynhyrchwyr cynnwys.



Rydym wedi asesu
**142,660 o gwynion**
am raglenni teledu a radio, **cynnydd o 300%** o gymharu â'r llynedd (2019/20: 34,545), cyhoeddi **28 o achosion o dorri'r** Cod Darlledu a gosod, **15 sancsiwn** ar ddarlledwyr, gan gynnwys **10 chosb ariannol**.

2.29 Bob blwyddyn, rydym yn asesu miloedd o raglenni ar y teledu a'r radio, i weld a ydynt wedi torri ein rheolau. Y llynedd yn unig, mi wnaethom asesu dros 142,000 o gwynion yn ymwneud â mwy na 11,000 o ddarnau unigol o gynnwys darlledu, cynnydd enfawr o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[15] Pan na fydd darlledwr yn bodloni'r safonau sydd wedi'u nodi yn ein Cod Darlledu, byddwn yn ymchwilio gan ddilyn ein gweithdrefnau, ac yn cyhoeddi penderfyniadau manwl ar unrhyw raglen rydym yn penderfynu ei bod yn torri ein

[15] Gweler Adroddiad Blynyddol Ofcom 2020/21 am ragor o wybodaeth:
https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/221786/adroddiad-blynyddol-2020-21.pdf

rheolau. Os ydym o'r farn bod yr achos yn ddifrifol, yn fwriadol, yn cael ei ailadrodd neu'n fyrbwyll, gallwn ystyried rhoi sancsiwn, fel cosb ariannol, cyfarwyddyd i beidio ag ailadrodd y rhaglen, neu – yn yr achosion mwyaf difrifol – ddiddymu trwydded i ddarlledu. Y llynedd, fe wnaethom osod 15 o sancsiynau ar ddarlledwyr am dorri ein cod.

2.30 Dros y flwyddyn nesaf, bydd ein gwaith yn y maes hwn yn cynnwys:

- **Rheoleiddio safonau cynnwys.** Ofcom yw'r rheoleiddiwr ar ôl darlledu ar gyfer safonau cynnwys ar deledu a radio a ddarlledir. Mae ein Cod Darlledu yn cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob un o'n trwyddedeion lynu wrthynt. Yn y flwyddyn i ddod byddwn yn parhau i gymryd camau gorfodi cadarn yn erbyn darlledwyr sy'n torri'r rheolau hyn, yn enwedig unrhyw achosion difrifol o dorri rheolau fel y rheini sy'n ymwneud â darlledu cynnwys sy'n debygol o gymell troseddu ac iaith casineb.
- **Rheoleiddio cynnwys mewn gwasanaethau fideo ar alwad.** Ni hefyd yw'r rheoleiddiwr cynnwys ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw sydd wedi'u sefydlu yn y DU a byddwn yn gweithio dros y deuddeg mis nesaf i sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â gofynion newydd ynghylch cynnwys niweidiol. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i gefnogi unrhyw gynigion i sicrhau bod y rheolau sy'n berthnasol i wasanaethau fideo ar-alw yn cyd-fynd yn agosach â'r rheini sy'n berthnasol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu.
- **Safonau'r BBC.** Bydd ein rôl o ran sicrhau bod sianeli teledu a gorsafoedd radio'r BBC, BBC iPlayer a BBC Sounds yn cyrraedd safonau hefyd yn parhau, yn ogystal â'n rôl oruchwylio yng nghyswllt cynnwys gwefannau'r BBC. O ran y BBC, mae'n rhaid i gynulleidfaoedd ddilyn proses 'BBC yn gyntaf' lle gellir cyflwyno cwyn i Ofcom os nad yw'r sawl sy'n cwyno yn fodlon â'i ddatrysiad gan y BBC.[16] Fel rhan o'n hadolygiad o drefniadau rheoleiddio'r BBC, byddwn yn ystyried a yw'r system gwyno bresennol yn parhau i wasanaethu cynulleidfaoedd.
- **Hysbysebu.** Er mwyn diogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol neu'n dramgwyddus mewn hysbysebion teledu a radio, mae gan Ofcom drefniant cyd-reoleiddio â'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA), rheoleiddiwr hysbysebion y DU. Mae'r trefniant hwn o fudd i gynulleidfaoedd drwy ddarparu un pwynt cyswllt iddynt ar gyfer mynegi pryderon am hysbysebu. Byddwn hefyd yn paratoi ar gyfer cyflwyno cyfyngiadau statudol newydd ar hysbysebu cynnyrch sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr (HFSS) a fydd yn berthnasol i hysbysebu ar y teledu, ar-alw ac ar-lein. Yn amodol ar broses seneddol, disgwylir y bydd y cyfyngiadau hyn yn dod i rym ym mis Ionawr 2023.

2.31 Yn ogystal â'n gwaith yn diogelu cynulleidfaoedd, rydym hefyd yn helpu i sicrhau ystod eang o wasanaethau teledu a radio drwy ein gwaith trwyddedu, a'n cefnogaeth i lwyfannau teledu a radio. Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau bod pob cynulleidfa - gan gynnwys pobl anabl - yn gallu cael gafael ar wasanaethau teledu. Bydd y gwaith yma'n cynnwys:

[16] Nid yw hyn yn berthnasol i gwynion am Degwch a Phreifatrwydd, y dylid eu cyflwyno'n uniongyrchol i Ofcom.


- **Trwyddedu gwasanaethau darlledu teledu a radio.** Byddwn yn parhau i gyhoeddi, rheoli a chynnal trwyddedau ar gyfer yr holl wasanaethau teledu masnachol lleol a chenedlaethol, gwasanaethau radio digidol, masnachol a chymunedol a gwasanaethau radio analog gwasanaeth cyfyngedig. Byddwn yn parhau i ymateb i geisiadau gan randdeiliaid i wneud newidiadau i'r trwyddedau hynny lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wasanaethau digidol wrth drwyddedu o'r newydd.
- **Cefnogi llwyfannau ar gyfer gwasanaethau darlledu.** Byddwn yn ehangu'r dewis i wrandawyr drwy drwyddedu gwasanaethau radio digidol DAB graddfa fach newydd ledled y DU, ac yn adnewyddu'r trwyddedau ar gyfer yr amlblecsau sy'n darparu gwasanaethau DAB lleol a Theledu Daearol Digidol (DTT). Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau â'n gwaith ar welliannau i ddarpariaeth radio cymunedol a masnachol ac estyniadau i wasanaethau analog presennol. Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith ar ddarparu cynnwys teledu a phrotocol sain dros y rhyngrwyd.
- **Cynnwys hygyrch i bobl anabl a'r rheini sydd â nam ar eu golwg a/neu ar eu clyw.** Mae'n bwysig bod gwasanaethau teledu ac ar-alw yn hygyrch i bob cynulleidfa. Byddwn yn parhau i orfodi gofynion ar gyfer "gwasanaethau mynediad" wrth ddarlledu – isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion. Ym mis Gorffennaf 2021, gwnaethom ragor o argymhellion i Lywodraeth y DU ynghylch sut gallai'r gofynion hyn weithio ar gyfer gwasanaethau ar-alw, gan gynnwys pryd y dylid eithrio gwasanaethau ar-alw o'r gofynion, a sut y dylid eu gorfodi. Eleni, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno'r gofynion hygyrchedd newydd hyn. Byddwn yn parhau i fonitro a chyhoeddi gwybodaeth am hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni darlledu ac ar-alw i bobl sydd â namau ar eu golwg a/neu ar eu clyw.

# Sefydlu rheoleiddio diogelwch ar-lein

**Rydyn ni eisiau i bawb yn y DU allu byw bywyd mwy diogel ar-lein. Byddwn yn defnyddio ein pwerau presennol i reoleiddio llwyfannau rhannu fideos, ac yn parhau i baratoi ar gyfer pwerau newydd, ehangach i wella diogelwch ar-lein.**

2.32 I'r rhan fwyaf ohonom, mae defnyddio gwasanaethau ar-lein bellach yn ail natur ac mae'n rhan sylfaenol o'n bywydau o ddydd i ddydd. Boed yn gwylio fideos ar YouTube, yn chwilio am y newyddion diweddaraf ar Twitter neu'n sgwrsio â ffrindiau ar WhatsApp, mae dylanwad gwasanaethau ar-lein ym mhobman. Yn 2020, mi wnaethom dreulio 3 awr 37 munud y dydd ar gyfartaledd ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron.[17]

2.33 Mae gwasanaethau ar-lein wedi arwain at lawer o newidiadau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan y cyhoedd, ond maent hefyd yn peri risg o niwed i unigolion. Er enghraifft, canfu ein hymchwil fod 70% o'r rheini sy'n gwylio gwasanaethau fideo cymdeithasol wedi gweld neu wedi profi rhywbeth a allai fod yn niweidiol.[18]




2.34 Er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu byw bywyd mwy diogel ar-lein, mae Llywodraeth y DU yn rhoi deddfwriaeth diogelwch ar-lein ar waith, a fydd yn cael ei gorfodi gan Ofcom. Mae'r Mesur Diogelwch Ar-lein, a fydd yn sefydlu'r drefn ac yn rhoi pwerau newydd i Ofcom, yn destun craffu seneddol ar hyn o bryd.

2.35 Mae'r Bil drafft yn canolbwyntio ar wasanaethau sy'n galluogi rhannu a chwilio am gynnwys sydd wedi ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr. Bydd yn ein galluogi i daflu goleuni ar y camau mae llwyfannau ar-lein yn eu cymryd i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed a'u dal i gyfrif pan nad ydynt yn gwneud digon. Yn fwy penodol, bydd yn mynnu bod llwyfannau'n asesu'r risgiau o niwed a achosir gan eu gwasanaethau ac yn cymryd camau cymesur i fynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon, a chynnwys sy'n niweidiol i blant. Bydd hefyd yn mynnu eu bod yn glir ynghylch yr hyn maent yn ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau o niwed i bob defnyddiwr, gan gynnwys oedolion. Bydd gennym bwerau i gymryd camau pan nad yw

[17] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0014/220415/online-nation-2021-welsh-overview.pdf
[18] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0014/220415/online-nation-2021-welsh-overview.pdf

llwyfannau'n cyflawni eu dyletswyddau – gan gynnwys y gallu i roi dirwyon o hyd at £18m neu 10% o refeniw blynyddol llwyfannau. Mae'r drefn yn canolbwyntio ar sicrhau bod llwyfannau'n rhoi systemau a phrosesau priodol ar waith, nid ar gael Ofcom i adolygu darnau unigol o gynnwys. Cyn gweithredu'r drefn diogelwch ar-lein ehangach, mae'r gwaith o reoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideos (VSPs) sydd wedi'u sefydlu yn y DU bellach ar waith.

### Gwreiddio rheoleiddio VSPs

2.36 Y DU oedd y wlad gyntaf i drosi Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol yr UE yn gyfraith, gan wneud Ofcom yn rheoleiddiwr ar VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU.[19] Yn gynharach eleni, fe wnaethom gyhoeddi ein cynllun a'n dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio VSPs[20] yn ogystal â chanllawiau i'r diwydiant.[21] Fel rhan o'r rheoliad hwn, byddwn yn blaenoriaethu'r canlynol eleni:

- i) lleihau'r risg o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM)
- ii) trechu casineb a therfysgaeth
- iii) diogelu pobl dan 18 oed
- iv) dilysu oedran ar VSPs i oedolion
- v) prosesau adrodd a fflagio VSPs.

2.37 Yn ystod hydref 2022 byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad VSP blynyddol cyntaf, gan asesu'r cynnydd yn erbyn y nodau hyn a galluogi defnyddwyr i weld sut mae eu gwasanaethau'n gweithio i fynd i'r afael â niwed.

2.38 Gwnaethom hefyd gyhoeddi ein datganiad yn ddiweddar yn nodi sut rydym yn bwriadu gweithio gyda rheoleiddiwr hysbysebion y DU, yr ASA, i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu rhag niwed posibl sy'n deillio o hysbysebion yn ymddangos ar VSPs.

### Paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein

2.39 Bydd y Bil Diogelwch Ar-lein yn ehangu cwmpas y gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom gan gynnwys llwyfannau ar-lein sy'n galluogi rhannu cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr, a gwasanaethau chwilio y gall defnyddwyr y DU eu defnyddio, ni waeth ble y sefydlwyd y llwyfannau. Byddwn yn defnyddio ein gwaith yn rheoleiddio VSPs yn y DU fel sbardun ar gyfer y set ehangach o bwerau y bydd y Bil hwn yn eu rhoi i ni, gan ymgysylltu â'r llwyfannau hynny rydym eisoes yn eu rheoleiddio er mwyn iddynt fod yn barod i fodloni'r dyletswyddau a roddwyd arnynt.

---

[19] Mae VSP yn fath o wasanaeth fideo ar-lein lle gall defnyddwyr lwytho fideos i fyny a'u rhannu ag aelodau o'r cyhoedd, fel Snapchat, TikTok a Twitch.

[20] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0027/226368/Llwyfannau-rhannu-fideos-Cynllun-a-Dull-Gweithredu-Ofcom.pdf

[21] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/226360/vsp-harms-guidance-welsh.pdf

2.40 Mae sicrhau bod defnyddwyr yn gallu byw bywyd mwy diogel ar-lein yn flaenoriaeth i ni. Gyda hyn mewn golwg, bydd paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein yn ffocws pwysig i ni yn 2022/23.

2.41 Rydym wedi tynnu sylw at bum maes ffocws cyn cael ein pwerau diogelwch ar-lein:

- **Cefnogi'r broses ddeddfwriaethol.** Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn cefnogi'r broses ddeddfwriaethol drwy roi cyngor i'r Llywodraeth a'r senedd lle bo hynny'n briodol.
- **Datblygu ein dull rheoleiddio.** Er mwyn gweithredu'r drefn, bydd angen i ni ymgynghori â'r cyhoedd ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys y codau ymarfer a fydd yn nodi'r camau a argymhellir er mwyn i lwyfannau gydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol. Ein nod yw ymgynghori ar y materion hyn cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Bil gael ei basio. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn cyhoeddi amrywiaeth o ddarnau o waith ymchwil a dadansoddi ar faterion sy'n berthnasol i'n swyddogaethau presennol mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a rheoleiddio VSPs, a fydd yn ein helpu i feithrin ein gwybodaeth a'n harbenigedd wrth baratoi i ymgynghori ar faterion diogelwch ar-lein. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion am ein cynlluniau i roi rheoliadau diogelwch ar-lein ar waith yn 2022/23.
- **Meithrin ymwybyddiaeth y cyhoedd o'n rôl arfaethedig yn y dyfodol.** Byddwn yn cyfleu ein dull gweithredu ar gyfer datblygu'r drefn diogelwch ar-lein yn ystod y broses ddeddfwriaethol, gan ymgysylltu'n helaeth â seneddwyr, y diwydiant, cymdeithas sifil, cyrff arbenigol a chynrychioladol a'r cyhoedd. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn adeiladu ar ein hymgysylltiad presennol â gwasanaethau mawr y disgwylir iddynt fod o fewn ein cwmpas, er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r camau y dylid eu cymryd i wella diogelwch ar-lein.
- **Sefydlu ein gweithrediadau.** Un o'r pethau y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn y flwyddyn i ddod fydd datblygu'r galluoedd cywir i gyflawni ein rôl newydd. Mae nifer o elfennau i'n gwaith yn y maes hwn. Rydym wrthi'n recriwtio cydweithwyr newydd i feithrin y capasiti a'r arbenigedd sydd eu hangen, gan ddiweddaru prosesau sefydliadol i gefnogi hyn. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf ac wedi recriwtio o amrywiaeth o sefydliadau megis Amazon, Google, y Internet Watch Foundation a'r NSPCC. Ar ôl agor ein hyb ym Manceinion yn gynharach eleni, byddwn yn parhau i ddatblygu ein gallu gweithredol dros y flwyddyn nesaf.
- **Buddsoddi mewn technoleg, data a gwybodaeth y sector.** Byddwn yn cryfhau ein rhaglen ymchwil i ymddygiad a phrofiadau defnyddwyr y rhyngrwyd, deinameg a chymhellion llwyfannau ar-lein, a'r adnoddau a'r technolegau a all effeithio ar ddiogelwch defnyddwyr y rhyngrwyd. Byddwn yn datblygu ein seilwaith rheoli ffisegol a'n gwybodaeth, a'n map technoleg gwybodaeth. Byddwn yn parhau i gryfhau ein harbenigedd mewn peiriannu data a edrych ar y potensial i ddefnyddio technegau ymchwilio meintiol presennol a newydd i asesu pa mor gyffredin yw niwed ar-lein a'r ffynonellau, yn ogystal ag effeithiolrwydd y mesurau a gymerir i ddiogelu defnyddwyr.

2.42 Yn ogystal â'r gwaith a ddisgrifir uchod, rydym yn ymgymryd â chynlluniau eraill sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein y flwyddyn nesaf:

- **Ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.** Mae hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn arf allweddol fel rhan o'n prif ddyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, a bydd yn hanfodol i'n swyddogaethau yn y dyfodol fel y rheoleiddiwr diogelwch ar-lein. Fe wnaethom ail-lansio ein rhaglen ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein ym mis Rhagfyr 2021[22], i egluro ein cynllun gwaith, gyda'r nod o hyrwyddo gallu pobl i gymryd rhan yn effeithiol a chadw'n ddiogel ar-lein. Rydym yn trefnu ein rhaglen waith o dan y pum piler canlynol:
  - *Ymgysylltu* – Mae yna sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein ledled y DU sydd eisoes yn gwneud llawer iawn o waith. Byddwn yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r sector hwn, yn hytrach na ailadrodd yr hyn y mae eraill eisoes yn ei wneud.
  - *Cychwyn* – Byddwn yn cefnogi'r sector drwy gomisiynu mentrau i wasanaethu carfannau penodol mewn cymunedau y cydnabyddir bod ganddynt anghenion penodol o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.
  - *Sefydlu* – Byddwn yn ceisio sefydlu egwyddorion dylunio arferion gorau ar gyfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.
  - *Gwerthuso* – Byddwn yn cynhyrchu canllawiau ar werthuso ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac yn creu sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr hyn sy'n gweithio.
  - *Ymchwil* – Byddwn yn parhau i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ac arloesol i lywio ein gwaith ni a gwaith y sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.
- **Cynyddu ein cydweithrediad â rheoleiddwyr eraill a phartneriaid ehangach.** Fel y trafodir yn 'Datblygu partneriaethau' isod, rydym yn parhau â'n gwaith arloesol ar y cyd â rheoleiddwyr digidol eraill drwy'r Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddio Digidol (DRCF), yn ogystal â rhannu gwybodaeth â phartneriaid rheoleiddio byd-eang ac eraill ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o wella diogelwch ar-lein. Fel rhan o'n cydweithrediad â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan y Fforwm, rydym yn datblygu dulliau gweithredu cyffredin, cydlynol i sicrhau cysondeb rhwng ein gwaith o reoleiddio VSPs a Chod Plant Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel ar sicrwydd oed. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), y llywodraeth a chyrff gorfodi'r gyfraith i archwilio sut gallai'r drefn diogelwch ar-lein gyfrannu at yr ymdrechion i leihau twyll a sgamiau ar-lein.

[22] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/229040/approach-to-online-media-literacy-welsh.pdf

## Bod yn sail i waith ehangach ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio

Mae ein rhaglen o waith polisi yn seiliedig ar nifer o raglenni penodol a gweithgareddau pwysig.

- **Ymchwil i'r farchnad a gwybodaeth am y farchnad.** Mae ein holl waith yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio. Rydym yn ymchwilio i farchnadoedd cyfathrebiadau a dewisiadau ac ymddygiad defnyddwyr er mwyn darparu dealltwriaeth drwyadl a chyfredol o bobl a busnesau ac mae dyletswydd arnom i gynnal ymchwil defnyddwyr a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd. Rydym yn parhau i archwilio dulliau ymchwil arloesol gan gynnwys drwy ein panel ar-lein ein hunain, cyfleoedd am fesur goddefol, ein rhaglen ehangu dealltwriaeth o ymddygiad gan gynnwys gemeiddio, yn ogystal ag ymchwil i berfformiad band eang. Rydyn ni'n cyfuno'r ymchwil hwn â data sy'n cael ei gasglu'n uniongyrchol gan y diwydiant a thrydydd partïon. Rydym yn sicrhau bod ein data a'n gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd, drwy adroddiadau, setiau data rhyngweithiol ac APIs[23], gan gynnwys Cysylltu'r Gwledydd, Cyfryngau'r Genedl, Ein Gwlad Ar-lein, Cymharu Ansawdd Gwasanaethau, Perfformiad Band Eang yn y Cartref, Materion Symudol, Arferion Prisio Gwasanaethau Cyfathrebu, Cael Gafael ar Newyddion, Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, ac Agweddau Plant a'u Defnydd o Gyfryngau.
- **Dealltwriaeth o ymddygiad.** Rydym wedi sefydlu Canolfan dealltwriaeth o ymddygiad i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o sut mae defnyddwyr yn gwneud penderfyniadau, y rhwystrau a'r sbardunau sy'n siapio eu hymddygiad a ffyrdd o annog defnyddwyr i ymgysylltu'n well â phenderfyniadau. Mae'r gwaith hwn yn cwmpasu ein cylch gwaith, gan gynnwys diogelwch ar-lein, band eang a thelegyfathrebu symudol. Er mwyn gwneud gwyddor ymddygiad yn rhan o'r broses o lunio polisïau, rydym yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau i ddeall ymddygiad defnyddwyr a busnesau ac i fesur yr hyn sy'n gweithio, gan gynnwys treialon maes a phrofion ar-lein.
- **Papurau economaidd a thechnoleg.** Pwrpas ein cyfres barhaus o bapurau trafod economeg yw annog trafodaeth ar bob agwedd ar reoleiddio'r cyfryngau a chyfathrebiadau a chyfrannu at y sylfaen dystiolaeth a ddefnyddir i greu tystiolaeth gadarn i gefnogi ein penderfyniadau.[24] Rydym hefyd yn cyhoeddi papurau sy'n edrych ar y prif faterion a thueddiadau ym maes technoleg, fel ein papur diweddar ar Ddyfodol Technoleg[25] a Dyfodol y Rhyngrwyd[26]. Nod y papurau hyn yw datblygu ein sylfaen wybodaeth a chyfrannu at y drafodaeth ehangach ar y themâu dan sylw. Byddwn yn cyhoeddi papurau pellach yn ystod y flwyddyn nesaf ar bynciau sydd o bwys strategol i'n sectorau.

[24] https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/economics-discussion-papers
[24] https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/economics-discussion-papers
[25] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0011/211115/report-emerging-technologies.pdf
[26] https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/internet-and-on-demand-research/internet-futures

- **Arloesi.** Rydym am feithrin amgylchedd lle mae arloesedd yn ffynnu, yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio ac o fewn Ofcom. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn datblygu dealltwriaeth ddofn o arloesedd yn ein sectorau ac yn hwyluso mwy o arloesedd yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio a thu hwnt. Er enghraifft, byddwn yn parhau i ddatblygu Canolfan Rhyngweithredu Rhwydwaith Agored SmartRAN (sy'n cael eu galw'n Labordai SONIC) mewn partneriaeth â Digital Catapult. Mae'r cyfleuster hwn yn caniatáu i ni brofi a dilysu gallu cyflenwyr presennol a chyflenwyr newydd i ryngweithredu offer rhwydwaith. Eleni, byddwn yn ehangu'r llwyfan profi i gynnwys lleoliad yn yr awyr agored a fydd yn ein galluogi i brofi amrywiaeth o sefyllfaoedd sy'n berthnasol i rwydweithiau symudol yn y byd go iawn.
- **Cynaladwyedd a newid yn yr hinsawdd.** Er mwyn cael rhwydweithiau a gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y tymor hir, mae'n hanfodol bod cwmnïau cyfathrebu'n buddsoddi i sicrhau bod ganddynt sylfaen gynaliadwy. Mae hyn yn golygu bod rhaid i gwmnïau cyfathrebu roi mwy o ystyriaeth i'w cynaladwyedd amgylcheddol. Mae'n galonogol gweld llawer o'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio'n ymrwymo i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd, gan ddarparu gwasanaethau a rhwydweithiau sy'n galluogi'r DU i fod yn fwy effeithlon a chynhyrchiol a'i grymuso i fynd i'r afael â'i heffaith ar yr amgylchedd. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n sectorau ar gynaladwyedd, a sut y gallem gyfrannu at y momentwm tuag at gyflawni targed carbon sero net y DU.
- **Peirianneg data a dadansoddi.** Mae tystiolaeth yn sail i lawer o'n gwaith ar ffurf dealltwriaeth a dadansoddi sy'n deillio o ddata. Mae ein Canolfan Arloesi Data yn rhoi arweiniad canolog a chyngor i arbenigwyr ar draws y sefydliad ar sut y gallwn wneud mwy gyda setiau data cynyddol gymhleth a'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu gan randdeiliaid. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i gryfhau ein gallu o ran data, o fewn y Ganolfan ac yn ein timau polisi, i'n galluogi i fanteisio ar ddulliau dadansoddi ac offer peirianneg uwch, ac i ddeall yn well sut rydym ni a'n rhanddeiliaid yn defnyddio data i ddarparu gwasanaethau i bobl a busnesau.
- **Y Gofrestrfa Gwybodaeth.** Mae'r Gofrestrfa Wybodaeth yn dîm canolog sy'n darparu arbenigedd a chymorth gweithredol i randdeiliaid gasglu data ar draws gwaith Ofcom, yn ogystal â pharatoi i gefnogi'r gwaith o roi trefniadau newydd ar waith ar wahanol gamau, er enghraifft y VSP, diogelwch ar-lein a threfniadau diogelwch telegyfathrebu. Mae gan y Gofrestrfa Gwybodaeth rôl yn cydlynu ceisiadau ffurfiol am wybodaeth ac mae'n gweithio gyda rhanddeiliaid ar amseriad ein ceisiadau arfaethedig a'n hadborth ar gasglu gwybodaeth.
- **Gorfodi.** Mae'r swyddogaeth orfodi yn cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau cydymffurfio a pholisi effeithiol, gan gynnwys drwy ddefnyddio camau gorfodi wedi'u targedu lle bo'n briodol i ddiogelu defnyddwyr neu fynd i'r afael ag achosion o dorri amodau cydymffurfio. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth a pholisi rheoleiddio, yn ogystal â chefnogi rhanddeiliaid i ddeall sut mae cydymffurfio â'u rhwymedigaethau rheoleiddio.
- **Gwerthuso effaith ein gwaith.** Mae deall effaith ein gwaith rheoleiddio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr yn agwedd bwysig ar wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ar ran pobl yn y DU. Byddwn yn parhau i asesu effaith ein gwaith drwy ein rhaglen barhaus o werthuso ex-post.

# 3. Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol

3.1 Gyda'r newid mawr tuag at wasanaethau ar-lein, ac wrth i Ofcom ysgwyddo trefniadau rheoleiddio newydd (diogelwch ar-lein, diogelwch telegyfathrebu), mae'r sefydliad yn wynebu newid sylweddol. Mae natur y materion rydym yn ceisio rhoi sylw iddynt a natur fyd-eang llawer o'r busnesau y byddwn yn eu rheoleiddio yn golygu rhagor o newid. Bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ni feddu ar y sgiliau a'r galluoedd cywir yn ogystal â gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid domestig a rhyngwladol. Rydym eisoes wedi dechrau ar y gwaith parhaus. Dros y 12 mis nesaf byddwn yn ceisio gwella ein harbenigedd wrth ddatblygu ein perthynas â phartneriaid presennol a newydd i sicrhau bod Ofcom yn parhau i fod yn rheoleiddiwr effeithiol.

## Datblygu sgiliau a galluoedd

3.2 Er mwyn sicrhau canlyniadau da i bawb, mae angen i ni barhau i gryfhau ein gallu sefydliadol. Byddwn yn parhau i amrywio ein gweithlu, yn ddaearyddol ac o ran y sgiliau a'r arbenigedd sydd gennym, er mwyn ymateb i'r heriau rheoleiddio sydd ar y gweill. Dyma rai o'r datblygiadau allweddol yn y flwyddyn i ddod:

- **Gwreiddio sgiliau dadansoddi data a datblygiadau digidol a thechnolegol.** Fe wnaethom groesawu ein Prif Swyddog Technoleg newydd, Sachin Jogia o Amazon ym mis Hydref 2021 a dros y flwyddyn nesaf bydd yn goruchwylio twf ein swyddogaethau technoleg a pheirianneg data.
- **Ychwanegu at yr amrywiaeth o safbwyntiau sydd gan Ofcom.** Byddwn hefyd yn adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i wneud i recriwtio'r arbenigedd polisi a masnachol sydd ei angen i droi dealltwriaeth yn gamau gweithredu ystyrlon. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflogi cydweithwyr o gwmnïau fel Amazon, Google a chyrff fel yr Internet Watch Foundation a'r NSPCC. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn recriwtio cydweithwyr sydd â'r profiad priodol i gyfrannu at yr heriau polisi sydd ar y gweill. Bydd secondiadau hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig.
- **Adeiladu a chryfhau ein canolfan yng Ngogledd Lloegr.** Eleni, fe wnaethom agor swyddfa newydd ym Manceinion, fel hyb ar gyfer sgiliau technegol a'n gwaith ar ddiogelwch ar-lein a diogelwch rhwydwaith. Eleni byddwn yn parhau i recriwtio yn y meysydd hyn, gyda llawer o swyddi wedi'u lleoli ym Manceinion. Byddwn hefyd yn gobeithio cynyddu ein presenoldeb yng Nghaerdydd, Belfast a Chaeredin i sicrhau ein bod yn cynrychioli pob rhan o'r DU ac yn denu'r doniau gorau sydd gan y DU i'w cynnig.
- **Gwireddu uchelgais ein rhaglen amrywiaeth a chynhwysiant sefydliadol.** Mae'n hanfodol bod gan Ofcom ddiwylliant cynhwysol a bod ein gweithlu'n cynrychioli holl wledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU, er mwyn i ni allu sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr a dinasyddion. Eleni, byddwn yn cyhoeddi'r cyntaf o ddiweddariadau cynnydd ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant yn Ch2 2022, a byddwn yn parhau i weithio tuag at y targedau gweithlu a osodwn i'n hunain a'r rhaglen waith rydym wedi'i amlinellu.

## Datblygu partneriaethau

3.3 Byddwn yn parhau i feithrin cysylltiadau â rheoleiddwyr, busnesau, cyrff arbenigol a llywodraethau yn y DU a ledled y byd er mwyn i ni allu parhau i ddysgu a chyfnewid arferion gorau. Drwy'r partneriaethau hyn, byddwn yn ceisio gwella ein dealltwriaeth o'n sectorau a'r ffyrdd y gallwn wasanaethu pobl yn y DU. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o waith.

**Parhau i weithio ar y cyd â rheoleiddwyr digidol eraill drwy'r Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddio Digidol (DRCF).** Sefydlwyd y Fforwm yn 2020 gan y CMA, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom – a ymunodd yr FCA fel aelod llawn ym mis Ebrill 2021. Mae'n ymateb uniongyrchol i'r heriau rheoleiddio sy'n gysylltiedig â gweithredu mewn byd digidol sydd wedi'i gydgyfeirio'n fawr, ac er mwyn cyflawni canlyniadau effeithiol, mae angen i ni ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r prif bethau sy'n sbarduno newid (er enghraifft, datblygu a defnyddio algorithmau) a sut gallwn ni gydweithio'n fwyaf effeithiol ar draws ein rolau i liniaru unrhyw niwed posibl a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil hyn. Cyhoeddodd y Fforwm gynllun gwaith blynyddol cyntaf ym mis Mawrth 2020, sy'n ymrwymo aelodau i weithio gyda'i gilydd ar bynciau sy'n amrywio o dueddiadau technolegol allweddol i ddenu'r sgiliau a'r galluoedd cywir. Ym mis Tachwedd, ymunodd Gill Whitehead fel Prif Weithredwr y Fforwm. Gan weithio gyda Phrif Weithredwyr aelodau'r Fforwm, bydd yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r ail gynllun gwaith blynyddol, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2022, ac yn arwain ymgysylltiad y Fforwm â rhanddeiliaid domestig a rhyngwladol.

**Panel Cynghori Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.** Yn 2019, aethom ati i sefydlu panel arbenigol o gynghorwyr i ddarparu mewnbwn i ni ar ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, a drafodwyd yn ein thema 'Sefydlu trefn reoleiddio diogelwch ar-lein'. Mae aelodau presennol y panel yn cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau, o sefydliadau di-elw (fel UNESCO a Internet Matters), busnesau (fel Google a Facebook), i academyddion.

- **Gorfodi'r gyfraith a'r gymuned wybodaeth.** Byddwn yn cryfhau ein perthynas â chyrff gorfodi'r gyfraith a'r gymuned wybodaeth o ran ein cyfrifoldebau diogelwch ar-lein, diogelwch telegyfathrebu a'n cyfrifoldebau sbectrwm. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau fel yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, yr Heddlu Metropolitanaidd, Heddlu Dinas Llundain, Heddlu'r Alban a Phencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU (GCHQ).
- **Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN).** Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill yn y DU i fynd i'r afael â heriau cyffredin ar draws gwahanol sectorau ac i rannu arferion gorau fel aelod o'r Rhwydwaith hwn. Yn arbennig, byddwn yn parhau i gyfrannu at waith polisi ar y cyd â'r Rhwydwaith i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed.
- **Fframwaith diogelwch telathrebu.** Byddwn yn parhau â'n perthynas waith agos â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ym maes diogelwch rhwydweithiau telegyfathrebu.

3.4 Byddwn yn buddsoddi yn ein cysylltiadau rhyngwladol ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Mae ein gwaith parhaus yn y maes hwn yn cynnwys:

- **Cydweithredu ar faterion sy'n ymwneud â rheoleiddio ar-lein.** Byddwn yn parhau i feithrin ein cysylltiadau rhyngwladol ac yn archwilio rhai newydd, gan gyfnewid profiadau ac arferion gorau sy'n esblygu. Byddwn yn parhau â'n deialog gyda chymheiriaid Ewropeaidd i helpu i sicrhau bod y gwaith rheoleiddio ar-lein sy'n dod i'r amlwg yn ein hawdurdodaethau unigol wedi'i alinio cymaint â phosib. Y DU yw un o'r gwledydd cyntaf yn Ewrop i drosi rheolau VSP yn gyfraith genedlaethol, a byddwn yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr yr UE i helpu i sicrhau tegwch i VSPs sy'n gweithredu ar draws ein hawdurdodaethau unigol.
- **Cydlynu rhyngwladol a mewnbwn technegol.** Byddwn yn parhau i gynrychioli'r DU yn yr Undeb Telegyfathrebu Rhyngwladol wrth iddi weithio i gydlynu'r gwaith rhyngwladol o reoli sbectrwm radio a chylchdroadau lloeren, safoni rhwydweithiau a gwasanaethau telegyfathrebu, a darparu cymorth technegol i wledydd sy'n datblygu. Y flwyddyn nesaf, bydd yr ITU yn cynnal ei gynhadledd plenipotenswyr unwaith bob pedair blynedd yn Bucharest.

# 4. Cyflwyno deilliannau da i ddefnyddwyr ar draws y DU

4.1 Prif ddyletswydd Ofcom o ran cyflawni ei swyddogaethau yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Mae’n bwysig ein bod yn nodi’r canlyniadau i ddefnyddwyr yr hoffem eu gweld yn cael eu cyflawni gan ein sectorau wrth ystyried ein cynllun gwaith, asesu pa mor dda rydym wedi cyflawni ein hamcanion, a meddwl ym mha feysydd y gellir gwneud mwy.

## Mesurau canlyniadau defnyddwyr

4.2 Yn Adran 2 rydym yn nodi’r gwaith y byddwn yn ei wneud yn ein meysydd blaenoriaeth. Mae rhestr isod o’r mesurau dangosol a fydd yn ein helpu i asesu pa mor dda y mae ein gweithredoedd wedi cefnogi canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr. Mae'r mesurau hyn wedi cael eu dylunio i fod yn uchelgeisiol ac, mewn nifer o achosion, gallai gymryd nifer o flynyddoedd i’w cyflawni. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn; gallwn ystyried amryw o ffactorau eraill wrth asesu a ydym wedi cyflawni ein hamcanion.

4.3 Byddwn hefyd yn adrodd am ein perfformiad wrth gymharu â’r canlyniadau yn ein hadroddiad blynyddol, a byddwn yn cyhoeddi ystod eang o fesurau manylach ar y canlyniadau i ddefnyddwyr.

| Blaenoriaethau strategol | Y mesurau rydym eisiau eu gweld/monitro |
|---|---|
| **Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel** | • Mae angen buddsoddiad sylweddol mewn rhwydweithiau sefydlog a symudol i gyflawni’r profiad mae defnyddwyr yn ei ddisgwyl yn y tymor canolig i’r tymor hir.<br>• Lefelau uchel o fodlonrwydd â’r gwasanaeth ymysg cwsmeriaid.<br>• Mwy o gartrefi gyda mwy nag un rhwydwaith cyfradd gigabit ar gael.<br>Byddwn yn monitro:<br>• Canfod bylchau yn y safonau cadernid rhwydwaith ac mewn arferion gorau a chynnig atebion.<br>• Cydymffurfiaeth â’r fframwaith diogelwch telathrebu. |
| **Cael cysylltiad i bawb** | • Gostyngiad yn nifer y cartrefi sy’n methu cael band eang 10Mbit yr eiliad.<br>• Cynnydd yng nghyfran y DU sy’n cael darpariaeth symudol o safon gan bob cwmni rhwydwaith symudol. |

| | |
|---|---|
| | Byddwn yn monitro:<br>• Ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol ynghyd ag effeithlonrwydd a chynaladwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol.<br>• Datblygiadau ehangach yn y farchnad a chystadleuaeth sy’n adlewyrchu’r twf parhaus yn y farchnad parseli a’r gostyngiad mewn llythyrau. |
| **Tegwch i gwsmeriaid** | • Lefelau uchel o fodlonrwydd ymysg cwsmeriaid o ran gwerth am arian.<br>• Lefelau uchel o fodlonrwydd o ran ymdrin â chwynion.<br>Byddwn yn monitro:<br>• Cyfran y cwsmeriaid y tu allan i gontract a faint maent yn ei dalu o gymharu â chwsmeriaid sydd mewn contract.<br>• Dangosyddion ymgysylltu â chwsmeriaid, er enghraifft cyfran y cwsmeriaid sy’n ail-gontractio neu’n newid darparwr.<br>• Cyfran y bobl sy’n ei chael hi’n anodd gallu fforddio gwasanaethau cyfathrebiadau.<br>• I ba raddau mae darparwyr yn cydymffurfio â’r rheolau a’r canllawiau a roddwyd ar waith gan Ofcom i ddiogelu defnyddwyr. |
| **Galluogi gwasanaethau diwifr yn yr economi ehangach** | • Mae defnyddwyr yn defnyddio amrywiaeth eang o opsiynau o ran argaeledd sbectrwm a mynediad iddo.<br>Byddwn yn monitro:<br>• Atebion di-wifr sy’n cael eu mabwysiadu gan y diwydiant. |
| **Cefnogi a datblygu’r cyfryngau yn y Deyrnas Unedig** | • Dewis o gynnwys o ansawdd uchel, gan gynnwys newyddion dibynadwy a rhaglenni sy’n adlewyrchu bywydau a diddordebau cynulleidfaoedd.<br>• Cynrychiolaeth amrywiol ar y sgrin ac oddi arni ar draws y diwydiant teledu a radio.<br>• Cynnal buddsoddiad mewn cynnwys, gan gynnwys ym mhob rhan o’r DU. |
| **Gwasanaethu a diogelu cynulleidfaoedd** | • Lefelau uchel o ddiogelu cynulleidfaoedd oherwydd safonau cynnwys.<br>• Ystod eang o wasanaethau radio a theledu, sy’n apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau. |
| **Sefydlu rheoleiddio diogelwch ar-lein** | Byddwn yn monitro:<br>• Mesurau a weithredir gan VSPs sydd wedi’u sefydlu yn y DU i ddiogelu defnyddwyr.<br>• Lefelau ymwybyddiaeth defnyddwyr o offer ar-lein a’u defnydd i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed ar-lein. |

# Ein gwaith ledled y DU

4.4 Mae Ofcom yn rheoleiddio ar gyfer y DU i gyd. Mae ein timau yng Nghaeredin, Caerdydd a Belfast yn sicrhau bod rhanddeiliaid ledled y DU yn deall beth yw gwaith Ofcom ac yn cael cyfle i ymgysylltu â'n hymgyngoriadau allweddol. Mae ein pwyllgorau cynghori cenedlaethol statudol yn ein cynghori ynghylch buddiannau a safbwyntiau pobl sy'n byw yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau. Mae'r pwyllgorau hyn yn rhoi cyngor i'n timau polisi ac maent yn rhan bwysig o'n proses o lunio polisïau. Mae safbwyntiau cynulleidfaoedd ar draws y DU hefyd yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Cynnwys Ofcom, sydd ag aelodau profiadol yn cynrychioli pob un o wledydd y DU. Mae gofyniad statudol i bob un o wledydd y DU fod â'i chynrychiolydd ei hun ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, sy'n rhoi sylw penodol i anghenion pobl hŷn a phobl anabl, pobl mewn ardaloedd gwledig a phobl sydd ar incwm isel.

4.5 Rydym wedi ymrwymo i gael gweithlu sy'n gynrychioliadol o boblogaeth y DU. Ochr yn ochr â'n swyddfa ym Manceinion, lle rydym yn cynyddu ein presenoldeb yng Ngogledd Lloegr, rydym yn parhau i gynyddu ein presenoldeb yn ein swyddfeydd yng Nghaeredin, Caerdydd a Belfast.

## Heriau cyffredin

4.6 Mae agweddau unigryw ar y ffordd y caiff gwasanaethau cyfathrebu eu darparu a'u derbyn yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a rhai rhanbarthau yn Lloegr. Dylai gwasanaethau cyfathrebu ddiwallu anghenion pobl a busnesau ni waeth beth yw eu lleoliad daearyddol. Er enghraifft, mae nifer o ardaloedd anghysbell a gwledig sy'n peri heriau penodol o ran darparu gwasanaethau post, ffonau symudol a band eang sefydlog. Mae hefyd yn bwysig bod gwasanaethau darlledu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn adlewyrchu amrywiaeth cynulleidfaoedd ar draws holl ranbarthau a gwledydd y DU.

4.7 Mae rhai rhannau o'r DU wedi cyflawni canlyniadau cryf o ran blaenoriaethau ar draws y wlad, gyda strategaethau neu fentrau y gellid eu rhannu ag ardaloedd eraill sy'n wynebu heriau tebyg. Er enghraifft, 70% yw lefel argaeledd ffeibr llawn yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd, sy'n sylweddol uwch na gweddill y DU. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i edrych ar y rhyngweithiad rhwng trefn gyflwyno sy'n cael ei hariannu'n gyhoeddus ac un breifat, a hefyd i ystyried cynlluniau'r diwydiant i baratoi ar gyfer diffodd PSTN.

4.8 Yn 2022/23, fel yr amlinellir yn y cynllun gwaith hwn, byddwn yn cyhoeddi nifer o adroddiadau sy'n canolbwyntio ar ddatblygiadau mewn gwahanol rannau o'r DU.

- Ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd a diweddariadau ar ddarpariaeth a chyflymderau band eang a symudol, gan gynnwys yr amrywiadau rhwng defnyddwyr gwledig a dinesig ac mewn gwahanol rannau o'r DU. Byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i ddefnyddwyr i'w helpu i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.
- Adroddiadau blynyddol ar y cyfryngau (Cyfryngau'r Genedl) ac ar y BBC, gan gynnwys asesu perfformiad y BBC yn erbyn ei drwydded weithredu. Mae pob un o'r adroddiadau hyn yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyflwyno i bob un o wledydd y DU.

- Mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gynhyrchu cyfran, ystod a gwerth addas o raglenni y tu allan i'r M25. Rydym yn cyhoeddi rhestr flynyddol o deitlau rhaglenni a ddarlledwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, y mae'r darlledwyr perthnasol wedi ardystio eu bod yn gynyrchiadau 'wedi'u gwneud y tu allan i Lundain'.
- Byddwn yn cynnal cais am fewnbwn er mwyn adolygu'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu gan ddarlledwyr am yr amrywiaeth yn eu gweithluoedd. Bydd hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer cwestiwn newydd ar amrywiaeth yn ôl lleoliad daearyddol, er mwyn deall amrywiaeth yn ôl gwlad a rhanbarth yn y DU.
- Byddwn hefyd yn edrych ar sut gallwn ni helpu llywodraethau ar draws y DU i gyrraedd eu targedau allyriadau sero net perthnasol. Rydym wedi bod yn gweithio i leihau ein hôl troed carbon ein hunain ers 2007, a byddwn yn parhau i ymchwilio i weld sut gallwn leihau ein hôl troed ymhellach, ar yr un pryd â herio'r diwydiant i chwarae ei ran hefyd.

## Yr Alban

4.9 Yn unol â'n rhwymedigaethau yn y Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban, Pwyllgorau ac Aelodau o Senedd yr Alban yn ogystal â Swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Alban wrth gyflawni ein rhaglen waith ar gyfer 2022/23.

4.10 Byddwn yn rhoi cyngor technegol a rheoleiddiol, yn ogystal â data perthnasol (lle bo'n briodol), er mwyn helpu Llywodraeth yr Alban i gyflawni ei phrosiectau seilwaith telathrebu allweddol a sicrhau rhyngweithio mor esmwyth â phosibl â chynlluniau eraill sy'n derbyn arian cyhoeddus. Fel rhan o hynny, byddwn yn parhau i fod yn arsyllydd ar Weithgor Rhwydwaith Gwledig a Rennir Llywodraeth yr Alban. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth yr Alban ar agweddau ar ei rhaglen waith ehangach, gan gynnwys ar gyflwyno ei Chynllun ar gyfer Buddsoddi yn y Seilwaith, Strategaeth Ddigidol yr Alban.

4.11 Byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau statudol fel y maent yn berthnasol i MG ALBA (y Gwasanaeth Cyfryngau Gaeleg), gan benodi aelod newydd i'r bwrdd a fydd yn cael ei enwebu gan Highlands and Islands Enterprise yn ystod hanner cyntaf 2022.

4.12 Byddwn yn parhau i gefnogi'r nodau ar gyfer rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos drwy ymgysylltu â'r diwydiant ar draws yr Alban, a chodi ymwybyddiaeth hefyd o'n cyfrifoldebau o dan y Bil Diogelwch Ar-lein. Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraethau ac asiantaethau perthnasol i sicrhau bod y drefn Diogelwch Ar-lein arfaethedig yn gweithio'n ddidrafferth mewn cyd-destun datganoledig.

4.13 Ar draws ein holl sectorau rheoledig byddwn yn parhau i ehangu a dyfnhau ein rhwydwaith rhanddeiliaid yn yr Alban gyda'r diwydiant (gan gynnwys y sector gemau), awdurdodau lleol, y byd academaidd, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, y corff newydd Consumer Scotland a'r Trydydd Sector.

## Cymru

4.14 Byddwn yn cwblhau'r adolygiad o'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a byddwn yn parhau i weithio'n agos â Llywodraeth Cymru, Pwyllgorau ac Aelodau Senedd Cymru yn

ogystal â Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru wrth gyflawni ein rhaglen waith ar gyfer 2022/23.

4.15 Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid yng Nghymru er mwyn deall eu blaenoriaethau a'u pryderon yn llawn. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod rhanddeiliaid yn cael y cyfle gorau i ymgysylltu â chydweithwyr ar draws Ofcom ar yr holl raglenni gwaith perthnasol, gan gynnwys cyfrifoldebau Ofcom mewn diogelwch ar-lein. Wrth wneud hyn, byddwn yn annog ac yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu cyfathrebu'n rhwydd ag Ofcom yn Gymraeg, gan wneud cyfraniad cadarnhaol at darged Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

4.16 Byddwn yn cefnogi sector creadigol deinamig Cymru wrth iddo barhau i addasu er mwyn diwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

4.17 Byddwn yn gweithio gyda'r cymunedau hynny sy'n cael anawsterau wrth geisio cael gafael ar wasanaethau cyfathrebu o ansawdd da. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant a Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y wybodaeth a'r cymorth perthnasol sydd ar gael. Yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd, byddwn yn cydweithio i godi ymwybyddiaeth o dechnolegau amgen a allai gynnig atebion ymarferol i rai cymunedau.

4.18 Byddwn yn darparu cyngor a chefnogaeth i Lywodraeth Cymru gan gynnwys ei Thasglu Chwalu Rhwystrau i helpu i leihau'r rhwystrau i gyflwyno a gwella rhwydweithiau cyfathrebu ymhellach. Byddwn yn monitro cynnydd y gwaith o roi'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir ar waith, gan sicrhau bod manteision disgwyliedig yn cael eu darparu i gymunedau gwledig. Byddwn yn parhau â'n deialog gyda phartïon sydd â diddordeb i gefnogi'r gwaith o gyflwyno technolegau cyfathrebu arloesol, gan sicrhau bod Ofcom yn darparu cymorth adeiladol ar gyfer cynlluniau o'r fath.

## Gogledd Iwerddon

4.19 Rydyn ni wrthi'n llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon, ac rydyn ni'n gobeithio penodi aelod Gogledd Iwerddon o'r Bwrdd yn hanner cyntaf 2022. Yn unol â'n rhwymedigaethau o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, byddwn yn gweithio'n agos gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Phwyllgorau ac Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon i gyflawni ein rhaglen waith ar gyfer 2022/23. Byddwn yn parhau i gefnogi gwell cysylltedd drwy gynnig cyngor rheoleiddiol a thechnegol i Brosiect Stratum a Chynllun Gweithredu Symudol Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant i'w hannog i barhau i gyflwyno band eang ffeibr llawn a darpariaeth symudol 4G a 5G.

4.20 Wrth i Ofcom ysgwyddo dyletswyddau newydd o ran diogelwch ar-lein a diogelwch rhwydwaith, byddwn yn gweithio gyda sector technoleg Gogledd Iwerddon, cyrff defnyddwyr a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i sicrhau bod y rheoliadau newydd yn seiliedig ar wybodaeth a bod dealltwriaeth dda ohonynt.

4.21 Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n cymheiriaid yng Ngweriniaeth Iwerddon – ComReg ac Awdurdod Darlledu Iwerddon – ac yn cynnig cyngor i Lywodraeth y DU a chyrff defnyddwyr

i helpu i sicrhau bod pobl a busnesau yng Ngogledd Iwerddon yn parhau i elwa o wasanaethau cyfathrebu sy'n cael eu darparu ar draws y DU ac ar draws yr ynys gyfan.

## Lloegr

4.22 Byddwn yn parhau i fynd i'r afael ag anghenion cyfathrebu amrywiol pobl ym mhob rhan o Loegr. Gan weithio gyda'r llywodraeth, ASau lleol ac awdurdodau lleol, byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ffeibr llawn i ddinasoedd, trefi a rhanbarthau newydd, a byddwn yn gweithio gyda darparwyr symudol i wella'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n bendant ar fforddadwyedd gwasanaethau cyfathrebu, gan gydnabod y bydd gwahanol rannau o'r wlad yn teimlo'r pwysau ariannol parhaus yn sgil y pandemig yn wahanol i'w gilydd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod trefniadau rheoleiddio'r post yn dal yn addas i'r diben ac yn diwallu anghenion newidiol pobl ar draws pob rhanbarth, gan ganolbwyntio'n benodol ar gadw amddiffyniadau allweddol i ddefnyddwyr mewn ardaloedd gwledig.

4.23 Byddwn yn parhau i bwyso am fwy o amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y sector cyfryngau er mwyn i raglenni adlewyrchu cynulleidfaoedd o bob cwr o Loegr a'r DU mewn ffordd ddilys. Yn fwy cyffredinol, byddwn yn sicrhau bod gwaith rheoleiddio ar draws ein holl sectorau'n adlewyrchu'r holl amrywiaeth sy'n bodoli ar draws y wlad. Ac wrth i ni baratoi ar gyfer dyletswyddau diogelwch ar-lein newydd, rydyn ni wedi lansio hyb newydd ym Manceinion i ddatblygu ein harbenigedd digidol a thechnegol ymhellach.


# Sicrhau gwerth am arian

## Byddwn yn parhau i ddarparu arbedion effeithlonrwydd ac arbedion arian

4.24 Ers Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant yn 2015 rydym wedi cyflawni arbedion termau real sy'n cyd-fynd â'r sector cyhoeddus ehangach. Ein nod yw bod yn rheoleiddiwr effeithiol ac effeithlon ar gyfer sector cyfathrebiadau sy'n symud yn gyflym. Mae Ofcom yn parhau i sicrhau gostyngiadau cyllidebol cyfatebol tebyg am debyg mewn termau real, a bydd yn parhau i fod yn fwy effeithlon pan fo'n bosibl.

4.25 Dros y degawd diwethaf, mae cost rheoleiddio wedi gostwng yn sylweddol mewn termau real. Mae'r siart isod yn dangos sut mae cyllideb Ofcom[27] wedi newid o'i chymharu â gwariant misol cyfartalog cartrefi ar wasanaethau telathrebu, teledu, radio a phost.

[27] Mae cyllideb Ofcom yma ac yn y siart yn cyfeirio at gyfanswm cyllideb Ofcom ac eithrio'r gyllideb ar gyfer dyletswyddau'r BBC a'r gyllideb ar gyfer dyletswyddau newydd.




## Cap gwariant ar gyfer 2022/23

4.26 Mae Llywodraeth y DU yn cytuno ar gap ar wariant cyllideb Ofcom. Rydym yn cynnal trafodaethau gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Thrysorlys EM ar gyfer cap diwygiedig ar gyfer ein dyletswyddau presennol a'r dyletswyddau newydd Diogelwch Ar-lein a Diogelwch Telathrebu arfaethedig y disgwyliwn eu cael cyn bo hir. Caiff ein costau eu hadennill gan y gweithredwyr yn y sectorau a hefyd drwy gadw'r derbyniadau rydym yn eu casglu o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA) ar gyfer trwyddedu sbectrwm. Mae'r holl gostau ar gyfer paratoi unrhyw ddyletswyddau newydd yn cael eu hariannu drwy gadw derbyniadau WTA, ac nid ydynt yn cael eu codi ar randdeiliaid. Bydd y ffioedd sy'n ddyledus gan bob sector yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'n datganiad Cynllun Gwaith yn ein tablau tariff ym mis Mawrth 2022. Mae'r cynllun gwaith yn cael ei adlewyrchu yn y tariffau rydym wedi'u gosod, a does dim newid wedi bod yn y fethodoleg rydym wedi'i defnyddio i gyfrifo'r costau hyn.

## Sut byddwn yn rheoli ein hadnoddau yn 2022/23

4.27 Rydym yn parhau i adolygu sut rydym yn gweithio er mwyn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol. Pan fydd adnoddau'n brin, byddwn yn gwneud dewisiadau sy'n seiliedig ar ein blaenoriaethau a'n dyletswyddau statudol.

4.28 Mae ein hadnoddau a'n sgiliau'n cael eu hanelu at gyflawni ein cynlluniau a'n dyletswyddau drwy gynllunio strategol a drwy ddelio â'n cyllidebau a'n rhagolygon mewn ffordd integredig. Rydym yn adolygu blaenoriaethau, capasiti a galw yn rheolaidd i wneud yn siŵr ein bod yn gallu bodloni ein hamcanion. Rydym hefyd yn cynyddu ein harbedion effeithlonrwydd drwy ddefnyddio prosesau caffael cystadleuol i sicrhau'r prisiau a'r ansawdd gorau gan ein cyflenwyr. Pan fydd angen buddsoddi, byddwn yn parhau i ddefnyddio rheolaeth ariannol dynn i sicrhau bod yr adnoddau sydd gennym mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

4.29 Mae gwella ein swyddfeydd a rhoi offer TGCh symudol i'n gweithlu wedi galluogi amgylchedd gweithio mwy hyblyg ac ystwyth i'n gweithlu ac mae wedi ein galluogi i leihau ein hôl troed yn Llundain 39% gan arbed dros £3m y flwyddyn ers 2019/20. Roedd hyn yn caniatáu i ni symud yn ddi-dor i weithio o bell a gweithio hybrid fel oedd yn ofynnol o ganlyniad i'r pandemig.

# A1. Yr hyn a wnawn

A1.1 Pwrpas Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Rydym yn rheoleiddio telathrebu llinell sefydlog a symudol, teledu, radio, gwasanaethau fideo ar-alw, y post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y DU i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau ac yn eu diogelu rhag ymarfer niweidiol a rhag cael eu trin yn niweidiol. Lle bo'n briodol, rydym yn cefnogi cystadleuaeth fel sail ar gyfer sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr. Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar lywodraethau a buddiannau masnachol i gyflawni ein dyletswyddau.

A1.2 Fodd bynnag, rydym yn atebol i'r Senedd Brydeinig ac, i gyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol â Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig. Rydym yn rhoi cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein gwaith ar weithredu darparwr gwasanaeth cyffredinol band eang yn y DU) ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol Llywodraeth y DU (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

## Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

A1.3 Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol. Yn ôl Deddf Cyfathrebiadau 2003, ein prif ddyletswydd o ran cyflawni ein swyddogaethau yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau'n ymwneud â diogelu defnyddwyr, cyfathrebiadau a chystadleuaeth; mae ein pwerau cystadleuaeth yn cael eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr adran hon.

## Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol sy'n llywio cyfeiriad ein gwaith

A1.4 Mae ein prif ddyletswyddau cyfreithiol wrth gyflawni ein gwaith yn cynnwys sicrhau:

- bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebiadau electronig;
- y gwneir y defnydd gorau posibl o'r sbectrwm radio;
- bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o safon yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu heb gyfiawnhad;
- bod y BBC yn cael ei ddal i gyfrif am ei gydymffurfiaeth â safonau cynnwys priodol, ei berfformiad yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a

- bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.

A1.5 Ym mis Tachwedd 2020, daeth rheolau newydd i rym a oedd yn rhoi'r cyfrifoldeb i Ofcom dros sicrhau bod Llwyfannau Rhannu Fideos a sefydlwyd yn y DU yn cymryd camau priodol i ddiogelu defnyddwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny rhag y perygl o wylio cynnwys niweidiol. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i benodi Ofcom yn rheoleiddiwr diogelwch ar-lein yn y Bil Diogelwch Ar-lein, sydd wrthi'n cael ei graffu gan y Senedd ar hyn o bryd.

A1.6 Ym mis Tachwedd 2021, daeth Deddf Telathrebu (Diogelwch) 2021 yn gyfraith. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau diogelwch newydd cryfach ar ddarparwyr telathrebu, gyda phwerau newydd i'r Llywodraeth nodi gofynion diogelwch. Mae hefyd yn rhoi cyfrifoldebau newydd ar Ofcom i sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio.

A1.7 Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond nid oes ganddo'r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol ynghylch gwasanaethau post a thelathrebu, yn wahanol i'w bwerau gyda theledu a radio. Pan fo'n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) yr rydym wedi'u cymeradwyo.

## Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

A1.8 Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodir uchod, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau i wneud y canlynol:

- gorfodi'r gwaharddiadau ar gytundebau gwrth-gystadleuol a chamddefnyddio safle goruchafol, a nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998; ac
- ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

A1.9 Byddwn yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer pwerau'r Ddeddf Cystadleuaeth neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol penodol.

# A2. Gwaith prosiect ar gyfer 2021/2022

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Gwybodaeth i ddefnyddwyr am fand eang gwibgyswllt / cyfradd gigabit.** Mae angen yr wybodaeth iawn ar bobl a busnesau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am y gwasanaethau band eang sydd orau iddyn nhw. Rydym wedi trefnu gweithgor yn y diwydiant i ddatblygu terminoleg gyffredin ar gyfer gwasanaethau band eang, gan gynnwys rhwydweithiau'r genhedlaeth nesaf cyfradd gigabit. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd ag argymhellion gweithgor GigaTAG, sef y dylai'r diwydiant geisio datblygu terminoleg gyson a defnyddio achosion. | Parhaus |
| **Strategaeth symudol.** Byddwn yn datblygu strategaeth ar gyfer ein hymagwedd at y sector a fydd yn sail i'n gwaith rheoleiddio yn y dyfodol ac sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu cysylltedd ac arloesedd o safon uchel i gynnig canlyniadau da i ddefnyddwyr a dinasyddion. Byddwn yn edrych yn gyffredinol ar y newidiadau sy'n digwydd ar draws y sector, gan gynnwys rôl gynyddol y cewri technoleg a'r potensial ar gyfer mwy o gydgyfeirio rhwng gwasanaethau sefydlog a symudol, i ystyried sut mae'r gystadleuaeth yn gweithio ar hyn o bryd, a sut mae'n debygol o esblygu dros y 5 i 10 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn cael ei wneud ochr yn ochr â'n prosiect galw am sbectrwm symudol. Bydd dau brif gam i'r adolygiad. Bydd cam un yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth, a bydd yn cynnwys ymgynghoriad i wahodd barn rhanddeiliaid. Bydd yr ail gam yn adeiladu ar ymatebion rhanddeiliaid i ddod i gasgliadau cychwynnol ac yn nodi unrhyw gamau nesaf. | Cyhoeddiad<br>Ch3 2022/23 |
| **Diogelwch a chadernid rhwydweithiau.** Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu ein cyfrifoldebau o dan y fframwaith diogelwch telathrebu newydd, gan gyflawni ein rôl gorfodi, monitro cydymffurfiaeth a chyhoeddi canllawiau ar gyfer y diwydiant. Byddwn hefyd yn parhau i wneud yn siŵr bod gweithredwyr gwasanaethau hanfodol yn rheoli risgiau diogelwch ac yn ymgysylltu â darparwyr cyfathrebiadau i gynnal cynllun profion treiddio bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth (TBEST). Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant i ganfod a chau bylchau mewn safonau ac arferion gorau, cyhoeddi arweiniad mewn perthynas â chadernid rhwydweithiau a pharhau â'r rhaglen o fonitro dyluniadau cydnerth yn rhagweithiol wrth ddefnyddio rhwydweithiau presennol. | Parhaus |
| **Amrywiaethu gwerthwyr telathrebu.** Mae Llywodraeth y DU yn gweithio i sicrhau cadwyn gyflenwi fwy cystadleuol, amrywiol, arloesol, diogel a chadarn ar gyfer telathrebu. I gefnogi hyn, bydd Ofcom, ochr yn ochr â Lab Telathrebu'r DU pan gaiff ei lansio, yn gweithio i alluogi gwerthwyr mwy newydd i brofi technoleg mewn amgylchedd sy'n fasnachol niwtral drwy lwyfan profi rhwydwaith mynediad radio agored Labordy SONIC. Nod Labordai SONIC yw meithrin dyfodiad atebion newydd, gan ganolbwyntio ar gynnyrch, atebion a gwasanaethau agored, wedi'u dadgyfuno ac sy'n canolbwyntio ar feddalwedd. Bydd Ofcom hefyd yn parhau i rannu ein gwybodaeth a'n harbenigedd â'r Llywodraeth ar faterion arallgyfeirio, gan gynnwys fel aelod arsylwr o'r Cyngor Cynghorol ar Arallgyfeirio Cadwyn Gyflenwi Telathrebu. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Niwtraliaeth y rhyngrwyd.** Mae fframwaith niwtraliaeth y rhyngrwyd yn mynnu bod rhwydweithiau'n trin holl draffig y rhyngrwyd ar eu rhwydweithiau yn gyfartal, heb ffafrio rhai gwefannau neu wasanaethau. Byddwn yn edrych ar y fframwaith er mwyn ystyried datblygiadau yn y farchnad a sut gallwn gefnogi arloesedd ar yr un pryd â pharhau i ddiogelu cwsmeriaid. | Cyhoeddiad<br>Ch2 2022/23 |
| **Marchnadoedd ar-lein.** Yn dilyn ein gwaith agos gyda'r Tasglu Marchnadoedd Digidol dan arweiniad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, byddwn yn parhau i gefnogi Llywodraeth y DU wrth iddi ddatblygu trefn o blaid cystadleuaeth ar gyfer marchnadoedd digidol a gweithio i sefydlu Uned Marchnadoedd Digidol yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Ar yr un pryd, rydym yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o effaith newydd marchnadoedd digidol ar wasanaethau cyfathrebu. | Parhaus |
| **26 GHz allan o fand.** Ar ôl ymgynghori, byddwn yn cyhoeddi ein datganiad ar fesurau i ddiogelu seryddiaeth radio a lloeren sy'n arsylwi'r ddaear gan ddefnyddio'r band 23.6-24 GHz rhag gwasanaethau presennol yn y band 26 GHz a rhai yn y dyfodol. | Datganiad<br>Ch2 2022/23 |
| **Dyfarnu bandiau sbectrwm wrth iddyn nhw gael eu clirio a'u rhyddhau.** Galluogi bandiau tonfedd milimetr i gael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau newydd ac arloesol, gan gynnwys 5G. | Ymgynghoriad<br>Ch1 2022/23<br>Datganiad<br>Ch3 2022/23 |
| **Rheoli sbectrwm drwy gronfeydd data.** Byddwn yn nodi ein syniadau ynghylch y rôl bosibl y gallai cronfeydd data awtomatig ei chwarae o ran diwallu heriau rheoli sbectrwm yn y dyfodol. Byddwn yn gofyn am fewnbwn ar yr amrywiaeth o atebion, heriau a manteision y gallai ein dull gweithredu ddod ar ei draws ochr yn ochr ag opsiynau awdurdodi rheoli sbectrwm traddodiadol. | Ymgynghoriad<br>Ch3 2022/23 |
| **Diffodd 2G/3G.** Byddwn yn parhau â'n gwaith yn edrych ar effeithiau diffodd 2G/3G ar yr holl bartïon yr effeithir arnynt. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr symudol er mwyn cefnogi'r broses a helpu i sicrhau bod unrhyw faterion sy'n cael eu codi yn cael eu canfod ac yn cael sylw, gyda'r nod o ddiogelu defnyddwyr rhag niwed a lleihau'r amhariad. | Parhaus |
| **Gwasanaeth band eang cyffredinol.** Lansiwyd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) band eang a byddwn yn parhau i fonitro ei darpariaeth gan y darparwyr dynodedig (BT a KCOM). Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn ceisio deall sut mae anghenion cysylltedd pobl wedi esblygu a byddwn yn gwneud hynny yn y dyfodol. | Parhaus |
| **Adolygiad o wasanaethau teleffoni y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.** Byddwn yn parhau â'n hadolygiad o'r rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol ar gyfer teleffoni, yn enwedig darparu blychau ffôn cyhoeddus gan BT a KCOM. | Datganiad<br>Ch1 2022/23 |

| | |
|---|---|
| **Mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngrwyd.** Byddwn yn gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau i helpu i sicrhau bod y materion a godwyd drwy eu mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngrwyd, gan gynnwys posibilrwydd diffodd y rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN) yn y dyfodol, yn cael eu canfod ac yn cael sylw gyda'r nod o ddiogelu defnyddwyr rhag niwed ac amharu cyn lleied â phosibl arnyn nhw. | Parhaus |
| **Mesur perfformiad band eang mewn cartrefi.** Byddwn yn cyhoeddi data ar berfformiad gwahanol wasanaethau band eang sefydlog i eiddo preswyl a sut maen nhw'n amrywio yn ôl nifer o ffactorau, gan gynnwys technoleg, darparwr gwasanaeth, pecyn, daearyddiaeth ac adeg o'r dydd. | Adroddiad<br>Ch2 2022/23 |
| **Gwella'r wybodaeth i ddefnyddwyr ynghylch darpariaeth symudol a'i berfformiad.** Rydym yn cynnal rhaglen waith i sefydlu sut dylem adrodd ar argaeledd ac ansawdd darpariaeth symudol er mwyn cyflwyno darlun cyson ar draws rhwydweithiau 4G a 5G. Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i wella cywirdeb a chysondeb y wybodaeth am ddarpariaeth a gyhoeddir gan Ofcom a'r diwydiant, yn ogystal ag edrych ar sut gall gwahanol ffynonellau data o'r byd go iawn roi mwy o wybodaeth i ddefnyddwyr am y perfformiad symudol y gallant ddisgwyl ei gael. | Adroddiad<br>Ch3 2022/23 |
| **Darpariaeth symudol.** Byddwn yn parhau i adrodd ar y cynnydd a wneir i wella darpariaeth o dan y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir ac yn gwneud gwaith i wirio cywirdeb rhagfynegiadau'r gweithredwyr o ran y ddarpariaeth. | Parhaus |
| **Monitro'r farchnad bost a pherfformiad y Post Brenhinol.** Byddwn yn parhau i fonitro'r sector post fel rhan o'n dyletswydd statudol i sicrhau gwasanaeth post cyffredinol, gan ystyried effeithlonrwydd a chynaladwyedd ariannol. | Adroddiad<br>Ch3 2022/23 |
| **Adolygu'r fframwaith rheoleiddio post ar gyfer y dyfodol.** Yn dilyn cais am fewnbwn, cyhoeddwyd ymgynghoriad gennym ym mis Rhagfyr 2021 ar ein hadolygiad o'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer post. Pwrpas yr adolygiad hwn yw sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio yn dal yn berthnasol ac yn effeithiol yn ystod y cyfnod adolygu nesaf. | Datganiad<br>Ch1 2022/23 |
| **Fforddadwyedd gwasanaethau band eang.** Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd i ba raddau y mae aelwydydd yn cael trafferth talu am wasanaethau cyfathrebiadau, yn enwedig o ran band eang. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro argaeledd tariffau wedi'u targedu, ymgyrchoedd hyrwyddo a'r nifer sy'n eu defnyddio, ac efallai y byddwn yn cymryd camau i wella hyn lle bo angen. Byddwn yn parhau i ystyried a oes angen unrhyw fesurau i gefnogi defnyddwyr sy'n agored i niwed yn ariannol, ac yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ystyried yr achos dros roi cefnogaeth i gwsmeriaid sy'n agored i niwed yn ariannol lle bo hynny'n briodol. | Parhaus |
| **Cefnogi cwsmeriaid agored i niwed.** Byddwn yn monitro a yw darparwyr yn trin cwsmeriaid mewn amgylchiadau agored i niwed yn deg ac yn rhoi'r cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Bydd hyn yn cynnwys cyfrannu at waith polisi ar y cyd â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Monitro a chydymffurfio ym maes amddiffyn defnyddwyr.** Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr wrth iddynt weithredu mesurau diogelu newydd ar gyfer defnyddwyr sy’n ymwneud â chrynodebau contract a gwybodaeth am gontractau, addasiadau i gontractau a’r hawl i adael a chyfnewid fideo brys a fydd yn berthnasol o fis Mehefin 2022 ymlaen. Byddwn yn datblygu ein ffocws ar fonitro a deall effaith y mesurau hyn a mesurau eraill i ddiogelu defnyddwyr, gan gynnwys cynlluniau gwirfoddol. Byddwn hefyd yn canolbwyntio a hyrwyddo cydymffurfio effeithiol. | Parhaus |
| **Adolygiadau pellach ar effaith hysbysiadau diwedd contract a hysbysiadau blynyddol am y tariffau gorau.** Byddwn yn parhau i fonitro dangosyddion ymgysylltu â chwsmeriaid. Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad pellach o effaith hysbysiadau blynyddol am y tariffau gorau a hysbysiadau diwedd contract yn y dyfodol er mwyn deall i ba raddau mae’r mesurau hyn yn effeithiol o ran cyflawni ein hamcanion. | Parhaus |
| **Rhoi Newid Un Cam ar waith.** Yn dilyn ein penderfyniad i gyflwyno Newid Un Cam ar gyfer newidiadau i linellau tir a band eang preswyl, byddwn yn gweithio gyda’r diwydiant i sicrhau bod OTS yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus erbyn mis Ebrill 2023. | Parhaus |
| **Adolygiad o bolisi rhifau yn y dyfodol.** Byddwn yn parhau â’n hadolygiad strategol o'r cynllun rhifau ffôn i sicrhau ei fod yn darparu'r hyn mae defnyddwyr yn ei ddeall, a’r hyn mae arnyn nhw ei eisiau a’i angen gan rifau ar gyfer y degawd nesaf. Yn benodol, byddwn yn ystyried dyfodol codau ardal a rhifau 084/087. | Datganiad<br>Ch1 2022/23 |
| **Mynd i’r afael â galwadau niwsans a sgamiau.** Ein nod yw tarfu ar sgamiau drwy annog cwmnïau telathrebu i ddatblygu atebion technegol a byddwn yn cryfhau ein rheolau ein hunain ar atal gwasanaethau cyfathrebu rhag cael eu camddefnyddio. Byddwn yn gweithio’n agos gyda’r diwydiant, Llywodraeth y DU a rheoleiddwyr eraill i’w gwneud yn anoddach i sgamiau gael eu cyflawni’n gyffredinol. Byddwn hefyd yn helpu defnyddwyr i osgoi sgamiau drwy godi ymwybyddiaeth a gwella gwybodaeth, er mwyn ei gwneud yn haws i bobl allu adnabod ac ymateb i sgamiau. | Parhaus |
| **Monitro tegwch ymrwymiadau i gwsmeriaid.** Byddwn yn parhau i roi pwysau ar ddarparwyr i sicrhau eu bod yn trin eu cwsmeriaid yn deg ac yn darparu gwasanaethau a chynnyrch sy’n cyd-fynd â’r ymrwymiadau tegwch. | Parhaus |
| **Cymharu ansawdd gwasanaeth.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol gan edrych ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid preswyl gan ddarparwyr telathrebu sefydlog a symudol. | Adroddiad<br>Ch1 2022/23 |
| **Adrodd ar batrymau prisio.** Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar batrymau prisio gwasanaethau sefydlog, symudol a theledu drwy dalu. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r prisiau sydd ar gael i ddefnyddwyr sy'n prynu mathau gwahanol o wasanaethau a chrynodeb o beth mae defnyddwyr yn ei dalu, ar gyfartaledd. Bydd hefyd yn edrych ar strwythurau tariff a sut mae prisiau gyda ‘disgownt’ yn amrywio o brisiau safonol neu brisiau ‘rhestr’, yn ogystal â’r gwahaniaeth rhwng prisiau mewn contract a phrisiau y tu allan i gontract. | Adroddiad<br>Ch3 2022/23 |

| | |
|---|---|
| **Galw am sbectrwm symudol.** O'i ystyried ochr yn ochr â'n strategaeth symudol, bydd ein papur casgliadau cychwynnol yn nodi ein hasesiad o sut gallai'r galw am wasanaethau symudol a rhwydweithiau symudol y DU esblygu yn y cyfnod hyd 2035, ac a oes angen rhagor o sbectrwm. | Cyhoeddiad<br>Ch3 2022/23 |
| **Meysydd electromagnetig (EMF) ac Iechyd.** Ar ôl llwyddo i weithredu'r gofyniad i gydymffurfio â'r cyfyngiadau cyhoeddus cyffredinol sy'n seiliedig ar ganllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd Nad yw'n Ioneiddio (ICNIRP) mewn trwyddedau sbectrwm, byddwn yn parhau i wirio bod trwyddedeion yn cydymffurfio. Byddwn hefyd yn darparu rhagor o arweiniad ac yn ymestyn archwiliadau cydymffurfio i amleddau o dan 10 MHz, a byddwn yn parhau â'n rhaglen o fesuriadau yn agos at orsafoedd ffonau symudol, gan barhau i ganolbwyntio ar 5G, a gwella'r mesuriadau hyn yn ôl yr angen. | Cyhoeddiad<br>Ch3 2022/23 |
| **Ymgysylltu â'r diwydiant ar ddi-wifr a sbectrwm.** Byddwn yn parhau â'n gwaith i godi ymwybyddiaeth o ddi-wifr a sbectrwm wrth gyflawni trawsnewid digidol ar draws sectorau gwahanol yn y diwydiant. Byddwn yn parhau â'n gwaith ymgysylltu i ddeall a monitro'r defnydd o sbectrwm a chanfod y galw nad yw'n cael ei ddiwallu. | Parhaus |
| **Ymgysylltu rhyngwladol.** Byddwn yn parhau i ymgysylltu ar draws Ewrop ac yn fyd-eang, ochr yn ochr â rhanddeiliaid yn y DU, i sicrhau bod buddiannau'r DU yn cael eu hadlewyrchu'n briodol mewn trafodaethau a phenderfyniadau rhyngwladol ynghylch sbectrwm. Byddwn yn arwain paratoadau'r DU ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC) a fydd yn cael ei chynnal yn 2023 a byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ar baratoadau'r DU yn ystod haf 2022. | Ymgynghoriad<br>Ch1 2022/23<br>Datganiad<br>Ch3 2022/23 |
| **Agor y band 14GHz.** Byddwn yn edrych ar y galw am fynediad at y band 14GHz. Rydym yn ymwybodol o'r galwadau i ddarparu'r sbectrwm hwn er mwyn cefnogi anghenion cynyddol y sector gofod. Byddwn yn edrych ar hyn yn fanylach ochr yn ochr ag unrhyw ofynion sy'n cystadlu â'i gilydd cyn penderfynu sut i fwrw ymlaen. | Ymgynghoriad<br>Ch1 2022/23<br>Datganiad<br>Ch3 2022/23 |
| **Band 6GHz uwch.** Ar ôl ymgynghori, byddwn yn ceisio trwyddedu systemau dan do pŵer isel yn y band 6425 i 7070 MHz a fydd yn galluogi'r cyfle i ddefnyddio offer tebyg i Wi-Fi ar gyfer defnyddwyr diwydiant, busnes ac ymchwil. Rydym yn ymwybodol bod gan y diwydiant hefyd ddiddordeb mewn trefn awdurdodi sy'n fwy addas i'w defnyddio gan ddefnyddwyr cyffredin – er enghraifft, ar gyfer rhwydweithiau symudol neu Wi-Fi heb drwydded. Mae hyn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn – ond byddwn yn sicrhau nad yw ein cynigion yn atal y defnydd posibl hwn yn y dyfodol. | Datganiad<br>Ch1 2022/23 |
| **Diweddariad ar y strategaeth sbectrwm gofod.** Ar ôl ymgynghori, gan adeiladu ar ein strategaeth yn 2017 ac adlewyrchu'r newidiadau diweddar yn y galw am sbectrwm gan y sector, y bwriad yw gwneud datganiad newydd ar y strategaeth sbectrwm gofod. Bydd y strategaeth yn edrych ar y camau y mae angen i ni eu cymryd i gefnogi'r sector hwn wrth iddo esblygu a thyfu. | Datganiad<br>Ch2 2022/23 |

| | |
|---|---|
| **Amrywio'r drwydded.** Byddwn yn adolygu'r trwyddedau ar gyfer rhwydweithiau symudol ac yn diweddaru'r rhain lle bo angen i gysoni'r fformat, y telerau a'r amodau ar draws y bandiau sbectrwm amrywiol sydd gan y gweithredwyr. Bydd hyn yn cynnwys adolygu paramedrau technegol i sicrhau nad yw'r rhain yn llesteirio'r defnydd o'r technolegau diweddaraf. | Datganiad<br>Ch2 2022/23 |
| **Prisio anogaeth weinyddol.** Byddwn yn parhau i adolygu'r ffioedd priodol ar gyfer yr ystod o fandiau sbectrwm lle daw ffioedd trwyddedau blynyddol yn ddyledus yn dilyn cyfnod cychwynnol a sicrhawyd drwy ddyfarniad. | Ymgynghoriad<br>Ch1 2022/23 |
| **Esblygiad llwyfannau trwyddedu.** Er mwyn darparu gwell proses ar-lein i'n rhanddeiliaid a'n galluogi i barhau i ddarparu gwasanaeth trwyddedu sbectrwm effeithlon yn y dyfodol, rydym yn disgwyl dechrau symud drosodd i'r system newydd gan ddechrau gyda'n trwyddedau symlach ond mwyaf yn ystod y cyfnod hwn. | Arall<br>Ch4 2022/23 |
| **Adolygiadau o'r sector busnes sbectrwm.** Rydym yn adolygu rôl sbectrwm o ran cefnogi rhwydweithiau dosbarthu ynni i gyrraedd targedau Llywodraeth y DU ar niwtraliaeth carbon a rheoli modelau dosbarthu newydd. Byddwn hefyd yn diweddaru ein strategaeth lloeren a gofod fel y nodir isod ac yn ystyried yr ymgyrch ar gyfer systemau capasiti uwch yn y sector gwasanaethau di-wifr sefydlog (FWS), yn enwedig yn y bandiau uwch uwchben 92 GHz fel rhan o'n trafodaethau sbectrwm terahertz. | Parhaus |
| **Galluogi'r galw cynyddol am ddefnyddio dronau.** Byddwn yn edrych ar ddewisiadau sbectrwm ac awdurdodi i gefnogi'r galw cynyddol am ddefnyddio dronau y tu hwnt i linellau gweld y gellir eu ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o gymwysiadau fel danfon cyflenwadau meddygol a monitro systemau traffig. Byddwn yn gweithio gyda'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) i wneud yn siŵr bod gennym fframwaith rheoleiddio cydgysylltiedig. | Datganiad<br>Ch3 2022/23 |
| **Gemau'r Gymanwlad, Birmingham, 2022.** Byddwn yn cefnogi Llywodraeth y DU a Phwyllgor Trefnu Gemau'r Gymanwlad i gynnal gemau llwyddiannus yn Birmingham yn 2022. Byddwn yn cynllunio, trwyddedu a monitro sbectrwm ac yn rheoli ymyriant yn y gemau gyda threfn profi a thagio ar gyfer offer di-wifr sy'n cydymffurfio, cyfarpar monitro a pheirianwyr a ddefnyddir i ddatrys problemau byw. | Arall<br>Ch2 2022/23 |
| **Newidiadau sylweddol i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC.** Byddwn yn parhau i fonitro gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC i sicrhau bod rhywun yn craffu'n briodol ar unrhyw newidiadau sylweddol o safbwynt rheoleiddio. | Parhaus |
| **Monitro gweithgareddau masnachol y BBC.** Mae'n rhaid i weithgareddau masnachol y BBC wneud elw masnachol dros gyfnod priodol er mwyn sicrhau na fydd arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i dalu am weithgareddau masnachol sy'n gwneud colled. Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar berfformiad ariannol a chyfraddau elw pob un o'i is-gwmnïau masnachol a phob llinell busnes yn ei is-gwmnïau masnachol. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth y BBC â'n gofynion o ran gwahanu gweithredol a phrisiau trosglwyddo. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC.** Byddwn yn nodi sut rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau ac yn asesu cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol yn ei fframwaith gweithredu a'i drwydded weithredu. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad hefyd sy’n mesur perfformiad y BBC o ran cyflawni ei genhadaeth a’i ddibenion cyhoeddus ar draws ei wasanaethau cyhoeddus. | Adroddiad<br>Ch3 2022/23 |
| **Adolygiad o reoleiddio’r BBC.** Wrth i ni nesáu at ganol cyfnod Siarter presennol y BBC, mae’n ofynnol i ni lunio ‘Adolygiad Cyfnodol’ o’r BBC. Rydym yn bwriadu defnyddio’r cyfle hwn i adeiladu ar gasgliadau Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, ac ystyried ein gwaith rheoleiddio ar y BBC dros y pedair blynedd diwethaf i sicrhau ei fod yn dal yn addas i’r diben o ran dal y BBC i gyfrif ar ran gwylwyr a gwrandawyr. | Adroddiad Ch1 |
| **Adolygu Trwydded Weithredu’r BBC.** Rydym yn ystyried sut mae angen i Drwydded Weithredu’r BBC esblygu wrth ystyried newidiadau yn anghenion a disgwyliadau cynulleidfaoedd. Bydd ein hymgynghoriad yn y gwanwyn yn nodi cynigion penodol ar gyfer newidiadau yng ngoleuni’r egwyddorion a drafodwyd yn ein hymgynghoriad “adolygiad o reoleiddio’r BBC” ym mis Gorffennaf 2021. Yn benodol, rydym yn rhagweld y dylai’r Drwydded ein galluogi i ddal y BBC i gyfrif am ei ddarpariaeth ar draws pob gwasanaeth, gan gynnwys ar-lein; y dylai’r Drwydded roi mwy o gyfle i’r BBC benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni rhwymedigaethau ei Drwydded ar draws ei lwyfannau a’i wasanaethau; ac y dylai’r Drwydded alluogi Ofcom i ddal y BBC i gyfrif yn fwy effeithiol drwy fynnu mwy o dryloywder ac adrodd mwy effeithiol gan y BBC. | Ymgynghoriad<br>Ch1 2022/23<br>Datganiad<br>Ch3 2022/23 |
| **Aildrwyddedu Channel 3 a Channel 5.** Byddwn yn cyflwyno adroddiad Adran 229 i’r Ysgrifennydd Gwladol, y mae’n rhaid i ni ei ddarparu erbyn mis Mehefin 2022. Bydd hwn yn nodi ein barn ynghylch a fydd deiliaid trwyddedau presennol Channel 3 a Channel 5 yn gallu cyfrannu, am gost fasnachol gynaliadwy, at gyflawni’r dibenion gwasanaeth cyhoeddus dros gyfnod nesaf y drwydded (deng mlynedd o 1 Ionawr 2025). | Adroddiad<br>Ch1 2022/23 |
| **Ymateb i Ddatganiad Polisi Cyfryngau blynyddol Corfforaeth Channel 4.** Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i sut bydd Channel 4 yn cyflawni ei gynlluniau a’i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau ar gyfer y flwyddyn ganlynol, fel y nodir yn ei ddatganiad. | Adroddiad<br>Ch2 2022/23 |
| **Rhaglen darlledu gwasanaeth cyhoeddus.** Bydd ein hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ‘Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr’ yn 2021, byddwn yn parhau i weithio gyda’r diwydiant a’r DU a llywodraethau datganoledig ar sut y gellid rhoi ein hargymhellion ar waith a sut rydym yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu parhau i fwynhau amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol o’r DU, ar wasanaethau darlledu ac ar-lein. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Cod hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS).** Rydym yn disgwyl i'r Llywodraeth gyflwyno rheoliadau sy'n mynnu bod darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw yn sicrhau eu bod ar gael i bobl sydd â nam ar eu golwg a/neu ar eu clyw. Byddwn wedyn yn ymgynghori ar god ac yn ei gyhoeddi, gan roi canllawiau ar fodloni'r gofynion. Mae'r gofynion yn debygol o gynnwys darparu is-deitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion ochr yn ochr â rhaglenni. Byddwn hefyd yn diwygio ein canllawiau arfer gorau mewn perthynas â hygyrchedd darlledu er mwyn ei ddiweddaru a chynnwys canllawiau sy'n benodol i wasanaethau ar-alw. | Ymgynghoriad<br>Ch1 2022/23<br>Datganiad<br>Ch2 2022/23 |
| **Dyfodol Plwraliaeth y Cyfryngau yn y DU.** Mae plwraliaeth y cyfryngau yn gonglfaen democratiaeth sy'n gweithio'n dda. Wrth i fwy a mwy o ddefnyddwyr gael gafael ar eu newyddion ar-lein, gan amrywiaeth o gyfryngwyr, byddwn yn adrodd ar rôl ac effaith y cyfryngwyr hynny ar blwraliaeth yn y DU. | Cyhoeddiad<br>Ch3 2022/23 |
| **Monitro amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu.** Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi cais am fewnbwn i lywio sut rydyn ni'n mireinio ein dull o gasglu data am amrywiaeth ac felly byddwn yn gohirio ein proses adrodd arferol yn 2022. Yn hytrach, byddwn yn casglu ac yn adrodd ar ddata dwy flynedd yn 2023, pan fyddwn hefyd yn diwygio ein holiadur amrywiaeth mewn darlledu. Bydd ein hadroddiad yn rhoi darlun o ba mor dda mae darlledwyr teledu a radio unigol – a'r diwydiant yn gyffredinol – yn hyrwyddo cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu sefydliadau. | Cais am fewnbwn<br>Ch2 2022/23 |
| **Hysbysebu HFSS: Bil Iechyd a Gofal.** Cafodd y Bil Iechyd a Gofal ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Gorffennaf 2021, ac mae'n nodi cyfyngiadau newydd ar hysbysebu bwyd a diod sy'n uchel mewn braster, halen neu siwgr (HFSS), gan gynnwys gwaharddiad cyn 9 o'r gloch ar wasanaethau teledu a rhaglenni ar-alw sy'n hysbysebu cynnyrch o'r fath. Bydd yn rhaid i Ofcom a'i gyd-reoleiddwyr (BCAP ac ASA) weinyddu'r cyfyngiadau hyn. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â hysbysebu HFSS ar wasanaethau ar-lein. | Parhaus |
| **Rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos.** Mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweled 2020 newydd yn cyflwyno gofynion i lwyfannau rhannu fideos (VSP) sydd wedi eu sefydlu yn y DU gymryd camau priodol i ddiogelu plant rhag cynnwys niweidiol, a diogelu'r cyhoedd yn gyffredinol rhag cynnwys sydd â deunydd anghyfreithlon a deunydd sy'n cymell casineb neu drais. Hefyd bydd angen i VSPs sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau penodol o ran hysbysebion.<br><br>Ym mis Hydref 2021 gwnaethom gyhoeddi cynllun VSP a dogfen dull gweithredu sy'n nodi ein hamcanion ar gyfer y drefn a'n cynlluniau ar gyfer y flwyddyn 2021/22. Mae ein pum maes ffocws yn cynnwys gwaith ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol; casineb a therfysgaeth; amddiffyn pobl ifanc o dan 18 oed; gwirio oedran; a phrosesau adrodd a fflagio. Bydd ein hadroddiad VSP blynyddol yn rhoi'r newyddion diweddaraf am y gwaith hwn yn ogystal â rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am fesurau diogelwch y llwyfannau gwahanol. | Adroddiad<br>Ch3 2022/23 |

| | |
|---|---|
| **Paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein.** Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fil Diogelwch Ar-lein drafft a fydd yn rhoi dyletswyddau newydd i Ofcom ar gyfer rheoleiddio diogelwch ar-lein. Rydym wrthi'n paratoi ar gyfer y rôl newydd hon ar hyn o bryd. Yn 2022/23 rydym yn bwriadu cyhoeddi dogfen sy'n nodi ein cynlluniau ar gyfer ysgwyddo'r cyfrifoldebau newydd hyn. Rydym hefyd yn rhagweld cyhoeddi cyfres o ddarnau o ymchwil sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein yn ystod y flwyddyn. | Cyhoeddiad<br>Ch1 2022/23 |
| **Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.** Byddwn yn parhau i weithio i helpu i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar-lein oedolion a phlant y DU. Byddwn yn bwrw ymlaen â'n gwaith mewn pum maes ategol, fel y nodir yn ein dogfen ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021. | Cyhoeddi Ch1 2022/23 Cyhoeddi Ch2 2022/23 |
| **Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF).** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i gefnogi dull rheoleiddio cydlynol ar gyfer gwasanaethau a materion ar-lein. Fel y gwnaeth y Fforwm y llynedd, caiff Cynllun Gwaith blynyddol ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf a fydd yn amlinellu'r prif feysydd ffocws ar gyfer y Fforwm yn 2022/23. Bydd hyn yn cynnwys ein swyddogaeth sganio'r gorwel ar y cyd a lansiwyd ym mis Tachwedd 2021 a blaenoriaethau allweddol eraill ar gyfer ein cydweithrediad dros y flwyddyn. Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn sicrhau ein bod yn nodi materion trawsbynciol yn fewnol a fyddai'n elwa o ddull gweithredu mwy cyfannol ar draws Ofcom (e.e. ynghylch algorithmau). | Parhaus |
| **Adroddiad amrywiaeth blynyddol.** Yn Ch2 2022/23, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar amrywiaeth, sy'n rhoi manylion ar amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb yn Ofcom. Mae'n edrych ar broffil amrywiaeth cydweithwyr yn Ofcom yn gyffredinol ac mewn meysydd fel cyflogau, recriwtio, perfformio a dyrchafiadau. Bydd yr adroddiad yn egluro ein rhyw, ein hethnigrwydd ac, am y tro cyntaf, ein data ar y bwlch cyflog ar gyfer pobl anabl yn 2020/21. Mae'r adroddiad yn ein helpu i benderfynu beth yw ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol o ran amrywiaeth a chynhwysiant yn y flwyddyn i ddod. | Adroddiad<br>Ch2 2022/23 |
| **Trawsnewid gallu Ofcom mewn peirianneg, gwyddoniaeth a dadansoddi data.** Byddwn yn parhau i gyfrannu at fentrau gwyddoniaeth a pheirianneg data, ac yn cefnogi cydweithwyr o gwmpas y sefydliad er mwyn cael yr wybodaeth a'r effeithlonrwydd gorau o weithgareddau sy'n ymwneud â data. Yn ogystal â defnyddio prosesau ac offer arloesol i gefnogi polisi a darparu gweithredol, byddwn yn adolygu technolegau a methodolegau sy'n dod i'r amlwg i wneud yn siŵr ein bod yn parhau ar flaen y gad o ran dealltwriaeth yn y maes cymhleth hwn. | Parhaus |
| **Parhau i arloesi yn ein dull o reoleiddio i helpu defnyddwyr a busnesau.** Byddwn yn ymchwilio ac yn mabwysiadu dulliau gweithredu creadigol ac arloesol ar gyfer ein gwaith rheoleiddio, mewn meysydd rheoleiddio newydd ac wrth adolygu dulliau gweithredu presennol. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n benodol ar alluogi meddwl creadigol mewn amgylchedd gwaith hybrid, gan weithio mewn partneriaeth â rheoleiddwyr eraill i fabwysiadu arferion gorau. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Datblygu dealltwriaeth Ofcom o dechnolegau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n tarfu a'r rôl maen nhw'n ei chwarae o ran darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr a busnesau.** Rydym yn ceisio deall, drwy ymgysylltu â thechnolegwyr yn y byd academaidd a diwydiant yn rhyngwladol, effaith bosibl arloesedd technolegol ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, gan gynnwys esblygiad technolegau hysbys a thechnolegau newydd radical. Mae'r rhain yn cynnwys technolegau fel deallusrwydd artiffisial (AI), cyfathrebiadau cwantwm, pensaernïaeth cyfrifiadura newydd a deunyddiau newydd. | Parhaus |
| **Datblygu dealltwriaeth Ofcom o'r technolegau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ar-lein.** Rydym yn datblygu gallu Ofcom mewn technolegau ar-lein i gefnogi eu perthnasedd cynyddol i'n rôl yn rheoleiddio VSP a niwed ar-lein ac o ran cymylu rhwydweithiau telathrebu a darlledu. Rydym wedi creu fframwaith rheoli gwybodaeth newydd i fod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes hwn, wedi comisiynu nifer o brosiectau ymchwil allanol i ddatblygu ein gwybodaeth am y meysydd technoleg allweddol ac wedi meithrin cysylltiadau â'r diwydiant Technoleg Diogelwch newydd. Rydym yn bwriadu cyhoeddi cyfres o bapurau trafod sy'n edrych ar oblygiadau posibl technolegau allweddol. | Parhaus |
| **Lleihau ôl troed carbon.** Gyda'r nod o ennill ardystiad ISO14001 erbyn Ch1 2022/23, ac fel rhan o'n cynllun Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu, byddwn yn edrych ar y canlynol: rheoli amgylcheddol i fod yn fwy amlwg yng nghyfeiriad strategol y sefydliad; gweithredu mentrau rhagweithiol i warchod yr amgylchedd rhag niwed, fel defnyddio adnoddau'n gynaliadwy a lliniaru newid yn yr hinsawdd; ychwanegu strategaeth gyfathrebu sy'n canolbwyntio ar randdeiliaid; ac integreiddio'n haws i systemau rheoli eraill. | Adroddiad<br>Ch1 2022/23 |
| **Cynaladwyedd a newid hinsawdd.** Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn y diwydiant i ddeall eu dull o redeg eu busnesau'n gynaliadwy, gan gynnwys sut maen nhw'n effeithio ar yr amgylchedd, a sut mae newid amgylcheddol yn effeithio arnyn nhw ac ar ymdrechion cymdeithasol ehangach i ddod yn fwy cynaliadwy. Byddwn yn parhau i ystyried sut gallai ein sectorau gyfrannu at y momentwm tuag at gyflawni targed carbon sero net y DU. | Parhaus |
| **Rhaglen ôl-asesiad.** Mae deall effaith ein gwaith rheoleiddio ar ganlyniadau defnyddwyr yn agwedd bwysig ar sicrhau ein bod yn cyflawni ar ran pobl a busnesau yn y DU. Byddwn yn parhau i asesu effaith ein gwaith fel rhan o'n rhaglen waith 2022/23 drwy ein rhaglen barhaus o ôl-werthuso. | Parhaus |
| **Ymddygiad defnyddwyr a'u profiad o ddefnyddio gwasanaethau symudol.** Byddwn yn defnyddio data torfol i archwilio sut mae pobl yn defnyddio gwasanaethau ffôn symudol ac ansawdd y perfformiad a ddarperir iddynt gan weithredwyr rhwydweithiau symudol. | Adroddiad<br>Ch2 2022/23 |
| **Cysylltu'r Gwledydd.** Byddwn yn parhau i adrodd ar argaeledd a'r defnydd o rwydweithiau band eang a symudol yn y diweddariad blynyddol hwn, sydd hefyd yn cynnwys fersiwn ar gyfer pob un o wledydd y DU. | Diweddariad Ch1 2022/23 Diweddariad Ch2 2022/23 Cyhoeddi Ch3 2022/23 |

| | |
|---|---|
| **Cyfryngau'r Genedl.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar dueddiadau allweddol yn y sector teledu a fideo, a'r sector radio a sain, sydd hefyd yn cynnwys fersiwn ar gyfer pob un o'r gwledydd datganoledig. | Adroddiad<br>Ch2 2022/23 |
| **Ein Gwlad Ar-lein.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ynghylch beth mae pobl yn ei wneud ar-lein, sut wasanaeth maent yn ei dderbyn gan ddarparwyr cynnwys a llwyfannau ar-lein, a'u hagweddau tuag at ddefnyddio'r rhyngrwyd a'u profiadau o hynny. | Adroddiad<br>Ch1 2022/23 |
| **Adrodd ar ymwybyddiaeth oedolion o'r cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, gan edrych ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ymysg oedolion y DU. Bydd yn cynnwys data ar ddefnydd, agweddau a dealltwriaeth oedolion 16 oed a hŷn yng nghyswllt cyfryngau, a sut mae'r rhain yn newid dros amser. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar y Cyfryngau ym Mywyd Oedolion, gan roi manylion canfyddiadau ein gwaith ymchwil hydredol, ethnograffig, ansoddol ar raddfa fach ymysg oedolion y DU – a fydd yn ategu ein harolygon meintiol. | Adroddiad<br>Ch1 2022/23 |
| **Adrodd ar ymwybyddiaeth plant o'r cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau a Defnydd Plant o Gyfryngau, gan roi tystiolaeth am ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth ymhlith plant a phobl ifanc 5-15 oed, yn ogystal â gwybodaeth am fynediad i'r cyfryngau a defnydd ymhlith plant 3-4 oed. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys safbwyntiau rhieni am ddefnydd eu plant o gyfryngau, a'r ffyrdd mae rhieni yn monitro neu'n cyfyngu ar ddefnyddio gwahanol fathau o gyfryngau. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar y Cyfryngau ym Mywyd Plant, gan roi manylion canfyddiadau ein gwaith ymchwil hydredol, ethnograffig, ansoddol ar raddfa fach ymysg plant a phobl ifanc – a fydd yn ategu ein harolygon meintiol. | Adroddiad<br>Ch1 2022/23 |

# A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A3.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 9 Chwefror 2022.

A3.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-andstatements/category-2/plan-of-work-2022-23. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb. Rydym yn croesawu ymatebion Cymraeg ac ni fydd ymateb yn Gymraeg yn achosi oedi nac yn cael ei drin yn llai ffafriol nag ymateb yn Saesneg.

A3.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i planofwork@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.

A3.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:

Tîm y Cynllun Gwaith,
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A3.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVD. Neu
- Gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A3.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A3.7 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A3.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A3.9 Byddai o gymorth pe bai eich ymateb yn cynnwys cyfeiriad at yr adran a'r paragraff y mae'n cyfeirio atynt. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A3.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i planofwork@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A3.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar wefan Ofcom cyn gynted ag y byddant yn dod i law.

A3.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.

A3.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A3.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A3.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad fis Mawrth 2022.

A3.16 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A3.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 4.

A3.18 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydyn ni'n rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydyn ni'n arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A3.19 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: ysgrifennyddygorfforaeth@ofcom.org.uk

# A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A4.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A4.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A4.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A4.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A4.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A4.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A4.7 Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A5. Taflen glawr yr ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen drwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________________________________

__________________________________________________________________________________

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

## DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi papur)